



Blwyddyn Darllen Genedlaethol 2008

**Adroddiad mewnol a gomisiynwyd gan y
Cyngor Llyfrau**

D. Hywel E. Roberts

Ionawr 2009

Cynnwys

Crynodeb	3
1. Pwrpas yr Adroddiad	7
2. Y cefndir	8
3. Y cyd-destun	9
3.1 Amcanion	10
3.2 Datblygu'r cynllun a'r rhaglen o weithgarwch	11
3.3 Nodau a thargedau'r Flwyddyn Darllen Genedlaethol yng Nghymru	11
3.4 Rheolaeth a gweinyddiaeth	12
3.5 Swyddogaeth y tîm rheoli, ac arolygu, monitro a gwerthuso rhaglen waith y Flwyddyn Darllen Genedlaethol	12
3.6 Gweithredu'r rhaglen waith	14
4. Gweithgaredd y Flwyddyn Darllen Genedlaethol yn 2008	15
4.1 Y digwyddiadau a drefnwyd gan y cydlynwyr lleol	15
4.2 Canfyddiadau am werth y Flwyddyn Darllen Genedlaethol – y digwyddiadau lleol	17
5. Y cynlluniau penodol	19
5.1 Wythnos Llyfr yn Anrheg	19
5.2 Cymunedau'n Darllen	22
5.3 Cynllun Clybiau Darllen 08	29
6. Partneriaethau a chysylltiadau newydd	33
6.1 Adeiladu ar seiliau	33
6.2 Partneriaethau newydd	34
7. Yr ymgyrch gyhoeddusrwydd	36
8. Gwefan y Flwyddyn Darllen Genedlaethol	38
9. Ystyried yr agweddau gwerth am arian	39
10. Gwaddol y Flwyddyn Darllen Genedlaethol	40
10.1 Cynaliadwyedd	40
10.2 Argymhellion ar gyfer y dyfodol	41

Crynodeb

(Mae'r rhifau mewn cromfachau yn dynodi yr adrannau yn yr Adroddiad lle y trafodir y mater dan sylw)

1. Dynodwyd 2008 yn Flwyddyn Darllen Genedlaethol yng Nghymru yn ogystal â Lloegr. Darparodd Llywodraeth Cynulliad Cymru adnoddau ar gyfer y Flwyddyn er mwyn cynnal ymgyrch amrywiol fyddai'n hyrwyddo darllen a llyfrau (adran 1).
2. Comisiynwyd Cyngor Llyfrau Cymru i arwain yr ymgyrch honno, a'r cylch gorchwyl (adran 2) a ddynodwyd oedd:

- Arwain a chydlynu ymgyrch genedlaethol fyddai'n hyrwyddo darllen, gan ddatblygu digwyddiadau a gweithgarwch o gwmpas tair thema – 'Wythnos Llyfr yn Anrheg' (adran 5.1); 'Cymunedau'n Darllen' (adran 5.2); Sefydlu 50 o Glybiau Darllen ar gyfer bechgyn yn eu harddegau cynnar (adran 5.3);
- Datblygu a chynnal gwefan y Flwyddyn Darllen Genedlaethol (adran 8);
- Cynnal ymgyrch gyhoeddusrwydd eang (adran 7);
- Creu partneriaethau gydag ystod eang o sefydliadau ar draws Cymru fyddai'n medru hyrwyddo darllen (adran 6);
- Trefnu Cynhadledd diwedd blwyddyn i ystyried canlyniadau'r gwaith;
- Comisiynu adroddiad diwedd Blwyddyn fyddai'n ystyried ac yn gwerthuso'r hyn a gyflawnwyd

Mae'r Adroddiad hwn yn dod i'r casgliad fod Cyngor Llyfrau Cymru wedi cyflawni holl ofynion y cylch gorchwyl ymhob un o'r meysydd hyn.

3. Fe osodwyd y cylch gorchwyl o fewn cyd-destun penodol (adran 3) – ceisio cynnal y gwelliannau a welwyd yn y cyfnod diweddar mewn cyraeddiadau a lefelau darllen ymhlith plant ac oedolion, hyrwyddo darllen ymhlith bechgyn yn eu harddegau cynnar, a datblygu sgiliau bywyd ymhlith oedolion fedrai ddeillio o hyrwyddo sgiliau darllen gwell, hyrwyddo darllen fel gweithgaredd hamdden ac yng nghyd-destun sgiliau gwaith, hyrwyddo darllen ymhlith grwpiau a chymunedau dan anfantais neu a fu'n anodd eu cyrraedd, a datblygu'r defnydd o dechnoleg er mwyn hyrwyddo darllen.
4. Sefydlwyd Pwyllgor Llywio cenedlaethol, a hwnnw a osododd y prif amcanion ac a roes sêl bendith ar brif ymgyrchoedd y Flwyddyn. Sefydlwyd tîm cydlynu cenedlaethol o fewn Cyngor Llyfrau Cymru oedd yn cynnwys Cydlynedd Cenedlaethol a Chynorthwy-ydd Gweinyddol (adran 3.2, 3.4, a 3.5).
5. Gwahoddwyd awdurdodau lleol Cymru i fod yn brif bartneriaid yn yr ymgyrch, ac fe benodwyd cydlynedd lleol gan bob awdurdod. Cynigiodd pob awdurdod raglen waith uchelgeisiol fyddai'n defnyddio pob arbenigedd perthnasol oedd ar gael o fewn yr awdurdodau er mwyn hyrwyddo darllen a darparu gwasanaethau oedd yn seiliedig ar lyfrau (adran 3.6 a 4).

6. Rheolwyd y tair prif ymgyrch (adran 5) mewn ffyrdd gwahanol gyda'r tîm canolog yn darparu cefnogaeth sylweddol. Gweinyddwyd ymgyrch 'Wythnos Llyfr yn Anrheg' yn ganolog gan y cydlynwyr a Chyngor Llyfrau Cymru gyda chwmmi Golley Slater, arbenigwyr yn y maes cysylltiadau cyhoeddus. Gweinyddwyd ymgyrch 'Cymunedau'n Darllen' ar sail cystadleuaeth agored ymhlith awdurdodau lleol Cymru, ac fe'i lleolwyd yn y Barri ym Mro Morgannwg ac yn Llanelli yn Sir Gaerfyrddin, gyda chymorth gan y cydlynwyr canolog. Fe benodwyd Cydlynwyr Cenedlaethol ar gyfer y Clybiau Darllen 08, a phump o gydlynwyr rhanbarthol, ac fe'u cefnogwyd gan gydlynwyr y Flwyddyn yn genedlaethol, ond yr oedd arweinyddiaeth y clybiau unigol yn nwylo'r arweinwyr gwirfoddol a benodwyd ar eu cyfer.

7. Gosodwyd targedau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer agweddau ar yr ymgyrch (adran 3.3) – trefnu 2,008 o ddiwyddiadau, a sefydlu 50 o Glybiau 08 gyda chyfanswm o 500 o aelodau ynddynt.

Erbyn diwedd Rhagfyr 2008 yr oedd y targed o 2,008 o ddiwyddiadau wedi'i oddiweddyd, gan mai 2,509 oedd cyfanswm y digwyddiadau a drefnwyd.

Sefydlwyd y 50 Clwb Darllen ac roedd cyfanswm yr aelodaeth yn fwy na 500.

8. Yr oedd lefelau cyfranogiad yn uchel (adran 4.1) – yr oedd cyfartaledd y presenoldeb yn y digwyddiadau ar draws Cymru bron yn 44 person, ac mae'n bosibl cyfrifo bod o leiaf 106,000 o bobl wedi cymryd rhan uniongyrchol yn ymgyrchoedd y Flwyddyn Darllen yn 2008.

9. Yr oedd lefelau boddhad ymhlith y cyfranogwyr hynny hefyd yn uchel (adran 4.1) – yr oedd 93% yn mynegi lefelau uchel o foddhad gyda chynnwys a natur yr arlwy, a'r unig feirniadaeth a gafwyd oedd bod y digwyddiadau yn llawn ac yn rhy boblogaidd. Cafwyd yr un math o ymateb hefyd o safbwynt ansawdd y trefniadau a'r gweinyddu.

10. Casglwyd tystiolaeth sy'n awgrymu fod y sawl fu'n rhan o'r Flwyddyn Darllen wedi cael budd mawr (adrannau 4.2, 5.2.1, 5.2.2, 5.2.3, a 6)

- roedd y cyhoedd o'r farn fod y digwyddiadau wedi bod yn arloesol, yn gyffrous ac wedi gallu newid eu bywyd mewn rhyw ffordd;
- magwyd profiad gwerthfawr ymhlith y trefnwyr, a datblygwyd sgiliau newydd wrth ddarparu rhaglen o weithgareddau uchelgeisiol;
- fe brofodd y sefydliadau a fu'n rhan o'r gwahanol ymgyrchoedd fod y galw am eu hadnoddau a'u gwasanaethau wedi codi'n sylweddol.

11. Yr oedd yr ymgyrch gyhoeddusrwydd (adran 7) yn cynnwys nifer o elfennau

- creu delwedd a brandio penodol – fe ddsbarthwyd mwy na miliwn a hanner o wahanol eitemau oedd yn dwyn brand a logo'r Flwyddyn;
- codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o waith y Flwyddyn Darllen mewn digwyddiadau cenedlaethol ac ymgyrchoedd hysbysebu cenedlaethol – byddai dros 1,400,000 o bobl wedi clywed am y Flwyddyn trwy'r dulliau hyn;

- hyrwyddo gwaith y Flwyddyn trwy gyfrwng y cyfryngau a'r wasg – byddai cynulleidfa botensial o dros 8.5 miliwn o bobl wedi clywed am y Flwyddyn Darllen drwy gyfrwng ymgyrchoedd cwmni Francis Balsom Associates (FBA) ar ran Cyngor Llyfrau Cymru, ac yr oedd gwerth cyfatebol y sylw a gafwyd fel hysbysrwydd yn £467,303. Yn ychwanegol at hynny, yr oedd cynulleidfa o dros 5.4 miliwn wedi gallu clywed am y Flwyddyn fel canlyniad i waith trwy hysbysrwydd pellach.
12. Fe gynhyrchodd ymgyrch 'Wythnos Llyfr yn Anrheg' ei hunan (adran 5.1), yr ymgyrch a lawnsiodd y Flwyddyn, gyhoeddusrwydd oedd yn werth £38,000, gyda gwerth y cysylltiadau cyhoeddus yn fwy na £113,000.
 13. Bu gwefan y Flwyddyn Darllen Genedlaethol (adran 8) yn gaffaeliad ac yn adnodd pwysig; fe fu dros 800,000 o ymweliadau â'r wefan rhwng Mai a Rhagfyr 2008. Profwyd gwerth y cyfrwng ym maes casglu a dosbarthu gwybodaeth, hyrwyddo digwyddiadau a datblygu syniadau, ac fe fu hefyd yn werthfawr fel modd o ategu rhai o'r ymgyrchoedd.
 14. Bu gweithio ar sail partneriaethau yn agwedd bwysig ar waith y Flwyddyn (adran 6). Yr awdurdodau lleol oedd y prif bartneriaid, ond fe gafwyd cyfraniadau pwysig iawn gan bartneriaid eraill fu'n gweithio yn y gorffennol gyda Chyngor Llyfrau Cymru ar ymgyrchoedd darllen, gan gynnwys undebau llafur. Fe sefydlwyd partneriaethau newydd gyda chyrrff yn y sectorau gwirfoddol ac elusennol, a hefyd gyda chwmnïoedd masnachol a sefydliadau cymdeithasol arbennig. Trwy'r partneriaethau hyn yn bennaf y datblygodd ac y darparodd gweithgarwch y Flwyddyn yr agweddau mwy heriol ar ei gwaith, gan ychwanegu at y cyfraniad ym maes cynhwysedd cymdeithasol ac amrywedd, a chael y cyfle i weithio o fewn y grwpiau a'r cymunedau a fu'n cael eu hystyried yn rhai anodd eu cyrraedd.
 15. Mae asesiad o agweddau gwerth am arian y Flwyddyn hon yn yr Adroddiad hwn (adran 9) yn dod i'r casgliad ei bod wedi cynnig gwerth am arian sylweddol iawn am nifer o resymau.
 16. Mae gwaddol y flwyddyn yn un sylweddol (adran 10):
 - gwnaeth argraff fawr ar y cyhoedd fel y mae lefelau cyfranogiad yn eu dangos;
 - yr oedd lefelau boddhad y cyfranogwyr hefyd yn uchel, ac mae disgwyliadau'r cyhoedd gryn dipyn yn uwch ar gyfer y dyfodol ar sail yr hyn a ddarparwyd yn 2008;
 - cafwyd tystiolaeth fod y Flwyddyn yn gallu newid bywydau rhai pobl;
 - mae sgiliau a galluoedd trefnu wedi cael eu gwella a'u datblygu gan waith y Flwyddyn, ac mae modelau gweithredu llwyddiannus a chynaliadwy ar gyfer gwahanol fathau o ymgyrchoedd wedi eu canfod a'u profi;
 - mae nifer dda o'r rhai fu'n rhan o Flwyddyn Darllen 2008 yn bwriadu parhau â'r gwaith ac â'r ymgyrchoedd pwysig hyn.

At hynny rhaid nodi fod arweiniad ar gyfer y dyfodol wedi ymddangos hefyd ar sail profiad y Flwyddyn:

- mae angen cyfnod hwy er mwyn paratoi ar gyfer Blwyddyn Darllen;
- bu lefel gymedrol y gyllideb ar gyfer Blwyddyn Darllen 2008 yn gyfyngiad ar y gwaith, ac
- mae'n ymddangos bod cynnal ymgyrchoedd dwys dros gyfnod penodol ar amser addas o fewn y calendr diwylliannol a chymdeithasol Cymreig, yn fodel sy'n fwy poblogaidd na'r hyn a gynigir gan ymgyrchoedd hirfaith.

Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd, bu'r Flwyddyn Darllen Genedlaethol yn 2008 yn llwyddiant mawr, ac y mae'n bwysig fod y llwyddiant hwnnw yn sail ar gyfer rhaglenni ac ymgyrchoedd fyddai'n hyrwyddo darllen, ac yn cynnal y momentwm a sefydlwyd

- dylai ymgyrch 'Wythnos Llyfr yn Anrheg' ddod yn rhan ganolog o Ddiwrnod y Llyfr yng Nghymru. Mae'n ddigwyddiad fedrai ddenu llawer iawn o sylw a chyhoeddusrwydd. Dylid darparu cyllideb addas ar ei gyfer;
- dylid ymestyn model 'Cymunedau'n Darllen' i o leiaf un awdurdod lleol yng Nghymru bob blwyddyn, a dylid darparu cyllideb addas ar gyfer hynny. Dylai pob awdurdod sy'n ymuno yn y cynllun gael ei annog i gynnal rhaglen o weithgareddau darllen wedi eu seilio ar y cynllun 'Cymunedau'n Darllen' yn y blynyddoedd dilynol;
- bu ymgyrch Clybiau 08 mor llwyddiannus fel y dylid ei hymestyn dros Gymru gyfan, ac fe ddylid cadw'r model trefniannol a darparu cyllid er mwyn hyrwyddo'r gwaith.

Ymhob achos ystyrir bod cael tîm canolog bychan i gynnig cymorth ac elfen o gydlynu yn gwbl hanfodol.

1. Pwrpas yr Adroddiad

Comisiynwyd yr Adroddiad hwn gan Gyngor Llyfrau Cymru. Ei bwrpas yw ceisio gwerthuso yr hyn a gyflawnwyd yn ystod Blwyddyn Darllen Genedlaethol 2008 gan y gwaith a drefnwyd ac a ddarparwyd gan Gyngor Llyfrau Cymru a'r nifer fawr o bartneriaid fu'n rhan o'r ymgyrch, gyda'r bwriad o gyflwyno'r Adroddiad hwnnw mewn Cynhadledd diwedd blwyddyn a gynhelir ym mis Chwefror 2009.

Gellid dewis nifer o dulliau gwerthuso o ystod eang o fethodolegau posibl. Byddai defnyddio rhai dulliau yn anghymwys. Er i Flwyddyn Darllen gael ei chynnal ddeng mlynedd yn ôl, ni ellir cymharu natur a chynnwys y ddwy gan fod y rhaglenni gwaith a fabwysiadwyd yn dra gwahanol, er bod yr amcanion a'r dibenion yn debyg. Yn ogystal, fel y bydd yr Adroddiad hwn yn ei nodi o bryd i'w gilydd, mae llawer o ganlyniadau Blwyddyn Darllen yn rhai fydd yn graddol ymddangos dros gyfnod, ac nid o fewn cyfnod byr. Ni fyddai felly yn gymwys dod i gasgliadau pendant ynglŷn â rhai canlyniadau sylfaenol ar hyn o bryd, gan y byddai hynny'n rhy fuan.

Er hynny, wrth gynllunio gwaith y Flwyddyn Darllen, fe geisiodd Cyngor Llyfrau Cymru hefyd sicrhau bod dulliau gwerthuso yn eu lle fyddai'n hwyluso'r gwaith o bwysu a mesur gwaith y Flwyddyn ar ei therfyn. Gosodwyd y dasg honno i bob cynllun penodol a gynhaliwyd neu a gomisiynwyd, ac fe luniwyd holiaduron a dulliau o gasglu gwybodaeth y byddai modd eu defnyddio ar gyfer y rhaglen waith yn ei chrynswth. Yn ogystal, y mae'n hysbys fod y prif bartneriaid yn y Flwyddyn, yr awdurdodau lleol, bellach yn arfer casglu pob math o wybodaeth am eu gweithgarwch, gan gynnwys ymateb gan y cyhoedd, ac fe ddefnyddiodd nifer o'r awdurdodau eu dulliau arferol o gasglu adborth. Er hynny, dylid pwysleisio fod rhai o'r rhaglenni gwaith wedi gosod y pwyslais bron yn llwyr ar hyrwyddo darllen trwy ddulliau anffurfiol, ac fe ystyriwyd mewn amgylchiadau felly y byddai gosod fframwaith weinyddol a dulliau o werthuso fyddai'n feichus o ran y cyfranogwyr, ac wedi gosod gwedd orffurfiol i'r rhaglen waith, yn sylfaenol anghymwys.

Gan fod cyfran bwysig iawn o weithgarwch a chynlluniau'r Flwyddyn Darllen Genedlaethol wedi digwydd yn ail hanner y flwyddyn, a bod peth o'r gweithgarwch wedi ymestyn i ddechrau 2009, yr oedd yn anochel y byddai'n rhaid llunio'r Adroddiad hwn mewn cyfnod pan oedd tystiolaeth fyddai'n cyfrannu at y gwaith o werthuso'r Flwyddyn yn dal i gael ei chreu a'i chyflwyno. Gallai hynny fod wedi cyfyngu ar natur y gwerthuso ac ar natur y casgliadau a'r canfyddiadau fyddai'n bosibl o fewn yr amserlen gyfyng. Ond ym marn awdur yr Adroddiad hwn, fe ddaeth digon o dystiolaeth i law eisoes sy'n cynnig sail addas i gasgliadau a chanfyddiadau dilys a phwysig. Dylid cydnabod cyfraniad aruthrol pawb fu'n gyfrifol am y gwaith o gasglu a choladu tystiolaeth, ac am brydlondeb llawer iawn o'r ymatebion.

Mae Adroddiad arall wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ogystal, un a fydd yn gwerthuso'r modd y cyflawnwyd y Flwyddyn Darllen Genedlaethol a'r gweithgaredd fu'n gysylltiedig â hi, a dyfynnu o'r fanyleb – *'to undertake an evaluation of the implementation of the National Year of Reading 2008 and its associated activities'* – a bydd y gwaith ar yr Adroddiad hwnnw yn ymestyn dros gyfnod ychydig yn hwy na'r hyn a neilltuwyd ar gyfer yr Adroddiad hwn.

Mae'r Adroddiad hwn felly yn canolbwyntio ar y canlynol:

- ystyried a gyflawnwyd y gorchwylion penodol a osodwyd ar Gyngor Llyfrau Cymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru;

- ystyried a gyrhaeddwyd y nodau a'r targedau penodol a osodwyd ar gyfer gwaith y Flwyddyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru;
- ystyried a gyflawnwyd yr amcanion a'r dibenion a osodwyd ar gyfer y Flwyddyn;
- ystyried y dulliau a fabwysiadwyd i hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol wrth hybu darllen ac ymateb i'r sialens o wasanaethu cymunedau difreintiedig a grwpiau anodd eu cyrraedd;
- ystyried beth fu lefel cyfranogiad y cyhoedd yng Nghymru yng ngwaith y Flwyddyn – yr elfen feintiol;
- ystyried beth fu lefel boddhad a bodlonwydd y cyhoedd o safbwynt y digwyddiadau a gynhaliwyd yn ystod y Flwyddyn – yr elfen ansoddol;
- ystyried a oedd rhaglen y Flwyddyn a'r modd y gweinyddwyd hi yn cynnig gwerth am arian;
- ystyried pa waddol o safbwynt canfod arferion da fyddai o werth parhaol neu sylweddol yng nghyd-destun hyrwyddo darllen, a sicrhawyd gan waith y Flwyddyn, a pha argymhellion sy'n bosibl eu cynnig yng ngoleuni gwaith y Flwyddyn.

2. Y cefndir

Dynodwyd y flwyddyn 2008 yn Flwyddyn Darllen Genedlaethol yng Nghymru yn ogystal ag yn Lloegr. Ar gais yr ymgyrch yn Lloegr y dynodwyd y flwyddyn galendr 2008 yn Flwyddyn Darllen, yn hytrach na blwyddyn ariannol 2008–09 neu flwyddyn ysgol 2008–09 dyweder. Canlyniad hynny oedd mai prin iawn oedd y cyfnod rhagbaratoi a ganiatawyd, ac yr oedd yn rhaid cynllunio, darparu a chyflawni o fewn cyfnod byr. Cyfeirir at ganlyniad hynny ymhellach o bryd i'w gilydd yn yr Adroddiad hwn, ond teg dweud yma pe byddid yn ystyried cynnal Blwyddyn Darllen eto yn y dyfodol, fe ddylid rhoi hyd at ddeuddeg mis o rybudd ar gyfer y gwaith cynllunio a'r rhagbaratoi.

Dyfarwyd adnoddau ariannol o £350,000 i Gyngor Llyfrau Cymru dros ddwy flynedd, ynghyd â swm ychwanegol o £117,000, gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i arwain a chydlynu ymgyrch genedlaethol yng Nghymru i hyrwyddo darllen, gyda phwyslais arbennig yn cael ei roi ar hyrwyddo'r arfer o ddarllen ymhlith pobl ifanc. Bu'n rhaid i'r Cyngor Llyfrau symud yn gyflym iawn ar ôl cael addewid grant gan Lywodraeth y Cynulliad, a hynny gyda chymorth y Pwyllgor Llywio a sefydlwyd. Yn benodol, cytunwyd y dylai'r ymgyrch ganolbwyntio ar nifer o weithgareddau:

- Arwain a chydlynu ymgyrch genedlaethol i hyrwyddo darllen yng Nghymru yn y flwyddyn 2008, gan ddatblygu a rheoli ymgyrchoedd yn seiliedig ar dair thema:
 - Trefnu a chynnal ymgyrch 'Wythnos Llyfr yn Anrheg';
 - Trefnu a chynnal ymgyrch 'Cymunedau'n Darllen', gan weithio mewn dwy gymuned benodol mewn cydweithrediad â dau awdurdod lleol, gyda'r dewis o awdurdodau penodol yn seiliedig ar broses gystadleuol i ddenu'r adnoddau a glustnodwyd ar gyfer y gwaith;

- Sefydlu 50 o glybiau darllen – Clybiau 08 – ar draws Cymru, gan ganolbwyntio ar weithio gyda bechgyn blynyddoedd addysgol penodol, cynulleidfa ddarllen sydd yn cael ei hystyried yn un anfoddog;
- Datblygu a chynnal gwefan arbennig ar gyfer y Flwyddyn Darllen. Gwelwyd y byddai gwefan o'r fath yn medru ategu'r gweithgareddau ac yn datblygu dull pellach o gyfrannu at yr ymgyrch gyhoeddusrwydd gyffredinol oedd yn rhan hanfodol o gynlluniau'r Flwyddyn Darllen;
- Roedd yn ddealladwy fod sicrhau cyhoeddusrwydd a sylw i'r Flwyddyn Darllen Genedlaethol ar bob cyfrwng posibl hefyd yn rhan o gylch gorchwyl Cyngor Llyfrau Cymru yn ystod 2008;
- Trefnu Cynhadledd diwedd blwyddyn ym mis Chwefror 2009 er mwyn bwrw golwg dros weithgaredd y Flwyddyn ac arddangos yr arferion da a'r profiadau gwerthfawr a ddeilliodd o waith y Flwyddyn;
- Creu cysylltiadau gyda phartneriaid allweddol ar draws Cymru i gynllunio a chynnal rhaglen o weithgarwch fyddai'n hyrwyddo darllen;
- Darparu Adroddiad diwedd blwyddyn yn olrhain ac yn gwerthuso yr hyn a gyflawnwyd yn ystod Blwyddyn Darllen Genedlaethol 2008. Yr Adroddiad hwn yw'r adroddiad hwnnw. Am y rhesymau a nodwyd eisoes uchod, ni ellir ystyried yr Adroddiad hwn yn adroddiad diffiniol na therfynol ar holl waith a chyflawniadau Blwyddyn Darllen Genedlaethol 2008 yng Nghymru, eithr y mae'n gam sylweddol tuag at hynny.

3. Y cyd-destun

Aeth deng mlynedd heibio ers y Flwyddyn Darllen flaenorol yn 1998 a arweiniwyd gan Gyngor Llyfrau Cymru. Erbyn 2007 yr oedd nifer o'r cyrff allweddol yn y maes yng Nghymru yn ystyried fod rhesymau sylweddol a dilys dros argymell cynnal ymgyrch gyffelyb. Yr oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i gynnal agenda uchelgeisiol iawn ar gyfer datblygu sgiliau'r genedl ac i dargedau llythrennedd fel agwedd allweddol o fewn yr agenda honno. Felly fe ystyriwyd y byddai cynnal ymgyrch uchelgeisiol yn debyg o gyfrannu'n sylweddol at gyrraedd y targedau hynny. Ystyriwyd hefyd fod cenhedlaeth newydd o ddysgwyr yn debyg o elwa'n sylweddol o ymgyrch uchelgeisiol, a bod y newidiadau ym maes technoleg ac yn natur bywydau trigolion Cymru yn cynnig her newydd. Gan fod Cymru wedi cynnal Diwrnod y Llyfr yn flynyddol ers 1999, lluniwyd nifer dda o gysylltiadau buddiol ac effeithiol rhwng y gwahanol gyrff yn y maes dros y cyfnod, ac fe fyddai'r cydweithio hwnnw'n cynnig sylfaen gymwys ar gyfer ymgyrch ehangach a mwy sylweddol.

Yr oedd tirwedd gwleidyddol a threfniannol Cymru wedi newid yn sylweddol hefyd dros y degawd ers 1998. Bellach yr oedd yr asiantaethau allweddol a'r prif sefydliadau naill ai'n rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru – megis Sgiliau Sylfaenol Cymru ac Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru (CyMAL), neu'n bartner strategol iddynt, megis Estyn. Yr oedd Cyngor Llyfrau Cymru wedi magu profiad sylweddol iawn o gynnal ymgyrchoedd o sawl math dros yr un cyfnod, gan gynnwys trefnu Diwrnod y Llyfr yn flynyddol, ac wedi hen arfer gweithio mewn partneriaeth glòs gyda'r adrannau a'r sefydliadau allweddol hyn dros gyfnod sylweddol.

3.1 Amcanion

Yr amcanion yn gyffredinol a fabwysiadwyd ar gyfer Blwyddyn Darllen Genedlaethol 2008 oedd ceisio efelychu llwyddiannau Blwyddyn Darllen 1998 pryd:

- y crewyd rhwydwaith llwyddiannus o bartneriaethau a lwyddodd i greu ymwybyddiaeth sylweddol iawn dros Gymru gyfan am yr ymgyrch a rhinweddau'r arfer o ddarllen;
- y datblygwyd dulliau effeithiol a llwyddiannus o weithredu wrth hyrwyddo darllen fel gweithgarwch hamdden difyr a phwysig, a
- phryd y llwyddwyd i gydlynu nifer sylweddol iawn o wahanol gyrff, mudiadau a sefydliadau, gan gyrraedd nodau a thargedau penodol.

Wrth reswm, yr oedd angen diweddarau'r amcanion erbyn 2007, gan geisio cyplysu gweithgarwch y Flwyddyn Darllen arfaethedig ar gyfer 2008 â'r hyn a ystyrir yn brif anghenion ac yn flaenoriaethau'r cyfnod hwn. Ymhlith y pwysicaf yr oedd:

- cynnal y gwelliant yng nghyrraeddadau darllen plant a phobl mewn oed;
- ceisio cyfrannu at y dasg o hyrwyddo darllen ymhlith bechgyn yn eu harddegau cynnar, a
- chyfrannu i ddatblygu sgiliau bywyd ymhlith oedolion, gan fod y gallu i ddarllen yn naturiol yn arwain at wella sgiliau mewn sawl cyfeiriad arall.

Gwelwyd hefyd y gallai ymgyrch ddarllen oedd yn cynnwys nifer o elfennau a chynlluniau penodol gyfrannu i lwyddiant ymgyrchoedd ac amcanion pwysig eraill, megis hyrwyddo gweithgarwch cymdeithasol, cyfrannu i'r gwaith o greu cymunedau cynaliadwy, a cheisio cyfoethogi'r profiad diwylliannol Cymreig.

Dewiswyd nifer o amcanion a ystyriwyd yn rhai cyraeddadwy o'r cyd-destun hwn ac o blith y dyheadau eang hyn, gan osod y pwyslais ar:

- hyrwyddo darllen fel gweithgaredd hamdden ac ar gyfer y byd gwaith, yn arbennig ymhlith y grwpiau a ystyrir yn gyffredinol yn rhai anodd eu cyrraedd neu'n draddodiadol anfoddog;
- dargedu grwpiau oedd dan anfantais ac na fedrent am amryfal resymau gael y budd arferol o'r arfer o ddarllen;
- geisio annog plant a rhieni i ddarllen ar y cyd, ac ymestyn y defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu er mwyn hyrwyddo'r arfer o ddarllen;
- bontio rhwng darllen a dilyn addysg neu hyfforddiant sgiliau ffurfiol, ac ar
- geisio sicrhau fod darllen yn rhan naturiol ac annatod o gynhyrsgaeth bywyd.

Fel y bydd yr Adroddiad hwn yn ei ddangos, yr oedd yr elfennau hyn yn treiddio drwy'r gweithgarwch a gynhaliwyd gydol y flwyddyn.

3.2 Datblygu'r cynllun a'r rhaglen o weithgarwch

Yn dilyn trafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, barnwyd mai'r tri chorff craidd amlwg a fedrai arwain y gwaith o fraenaru'r tir a datblygu cynlluniau perthnasol ar gyfer Blwyddyn Darllen Genedlaethol yng Nghymru yn 2008 fyddai Sgiliau Sylfaenol Cymru, CyMAL, ac Estyn, a barnwyd hefyd y dylid sicrhau cefnogaeth ymarferol nifer o sefydliadau perthnasol eraill, megis awdurdodau lleol Cymru, a'u gwasanaethau llyfrgell yn arbennig. Fel yr aeth y Flwyddyn Darllen yn ei blaen cafwyd cryn fudd hefyd o gyfraniad nifer fawr o gyrff a sefydliadau eraill yng Nghymru.

Yr oedd nifer o gynlluniau gwaith ac ymgyrchoedd yn cael eu cynnal eisoes gan y tri chorff a nodwyd uchod fyddai'n ganolog berthnasol i Flwyddyn Darllen. Sgiliau Sylfaenol Cymru yw'r corff sy'n bennaf gyfrifol am hyrwyddo llythrennedd a rhifedd yng Nghymru, ac o'r herwydd yr oedd modd cyplysu ei raglen waith gydag amcanion y Flwyddyn Darllen mewn meysydd penodol, gan ddatblygu agweddau ychwanegol, a phwyslais ychwanegol, o fewn rhai cynlluniau. Mae CyMAL hefyd yn hyrwyddo ymgyrchoedd fyddai'n codi'r defnydd a wneir o lyfrgelloedd gan y cyhoedd ac yn codi delwedd yr arfer o ddarllen. Cefnogodd CyMAL nifer o ymgyrchoedd darllen ers sefydlu'r Adran. Yn ystod y Flwyddyn Darllen Genedlaethol cyhoeddodd Estyn adroddiadau ar ddatblygiad llythrennedd ynghyd â chynnal cynhadledd ar godi safonau llythrennedd.

Ar yr un pryd cafwyd cydweithrediad parod a chymorth sylweddol gan y tîm a sefydlwyd yn Lloegr, dan arweiniad y National Literacy Trust a'r Reading Agency, er mwyn hyrwyddo'r Flwyddyn Darllen Genedlaethol yno. Cafwyd cyfarfodydd gyda'r tîm yn Lloegr er mwyn cyfnewid gwybodaeth, a rhannwyd gwybodaeth yn gyson yn ystod y flwyddyn. Mae nifer o elfennau sy'n gyffredin rhwng y gwaith yn Lloegr a Chymru, ac mae'r pwyslais ar sefydlu partneriaeth sylfaenol gydag awdurdodau lleol yn un elfen gyffredin bwysig.

Cynhaliwyd cyfarfodydd rhwng trefnwyr y Flwyddyn Darllen yn Lloegr a Chyngor Llyfrau Cymru, cyfnewidiwyd dogfennau a gwybodaeth am eu hamcanion a'u bwriadau, a buwyd yn lloffa ar y cyd am wybodaeth am ddigwyddiadau a syniadau. Benthycodd Cymru y syniad o osod themâu ar gyfer gweithgaredd misoedd y Flwyddyn, er enghraifft, a bu hynny'n werthfawr o ran hyrwyddo syniadau newydd a gwahanol yng Nghymru.

Ond fe ddylid cofio fod y Flwyddyn yn Lloegr wedi cael gorchwylion penodol a gwahanol gan yr Adran dros Addysg a Sgiliau yn Llundain, a bod tîm sylweddol o ran ei faint a'i arbenigeddau wedi'i greu er mwyn cynnal y Flwyddyn, a bod adnoddau ariannol sylweddol wedi'u darparu ar ei gyfer – llawer iawn mwy sylweddol na'r hyn a ddarparwyd yng Nghymru.

3.3 Nodau a thargedau'r Flwyddyn Darllen Genedlaethol yng Nghymru

Dau darged penodol a osodwyd ar gyfer Cyngor Llyfrau Cymru o safbwynt yr hyn y disgwyliid i'r Flwyddyn ei gyflawni yn ystod 2008, sef:

- cynnal o leiaf 2,008 o ddigwyddiadau fyddai'n gysylltiedig â'r ymgyrch yn ei chrynswth, a
- sefydlu 50 o Glybiau Darllen – Clybiau 08 – ac iddynt o leiaf 10 aelod yr un.

Yn ogystal, yr oedd yn ofynnol i Gyngor Llyfrau Cymru lunio ymgyrch gyhoedduswydd sylweddol, a chomisiynu Adroddiad ar gyflawniadau'r Flwyddyn yn ystyried a wnaeth gyrraedd ei hamcanion a'i bwriadau, a chynnal cynhadledd diwedd Blwyddyn.

Fe gyrhaeddwyd y ddau darged – a goddiweddyd y cyntaf, ynghyd â'r gofynion eraill hynny.

3.4 Rheolaeth a gweinyddiaeth

Yn y lle cyntaf, yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal a chefnogi Blwyddyn Darllen Genedlaethol yng Nghymru, a bod Cyngor Llyfrau Cymru yn cael y gwahoddiad i fod yn gyfrifol am ei rheoli a'i gweinyddu, sefydlwyd Pwyllgor Llywio oedd yn cynnwys cynrychiolwyr ar ran y tri chorff a nodwyd uchod. Yr oedd cynrychiolwyr ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd ar y Pwyllgor Llywio hwnnw ac yn y cyfarfodydd llywio a gynhaliwyd.

Y Pwyllgor Llywio a ddatblygodd brif amcanion y Flwyddyn ar gyfer Cymru, ac a gytunodd beth fyddai'r prif agweddau ar y rhaglen waith a'r modd y dylid mynd ati i greu rhaglen uchelgeisiol o weithgareddau ledled Cymru, gan ymateb i argymhellion a gyflwynwyd gan Gyngor Llyfrau Cymru ac eraill o ran syniadau ac ymgyrchoedd penodol.

O fewn Cyngor Llyfrau Cymru, penodwyd Cydlynnydd i oruchwylio rhaglen waith y Flwyddyn, sef Delyth Humphreys, fu'n gyfrifol am drefnu gweithgareddau Diwrnod y Llyfr yng Nghymru fel rhan o'i dyletswyddau ers rhai blynyddoedd. Penodwyd Cynorthwy-ydd Gweinyddol yn ogystal.

O bryd i'w gilydd, ac yn ôl y galw, fe gyfrannodd eraill o blith swyddogion Cyngor Llyfrau Cymru o'u hamser a'u harbenigedd i hyrwyddo gweithgarwch a llwyddiant y Flwyddyn Darllen Genedlaethol, ac fe gomisiynwyd nifer o unigolion a chwmmi'oedd i gyflawni tasgau penodol ac arbenigol angenrheidiol.

3.5 Swyddogaeth y tim rheoli, ac arolygu, monitro a gwerthuso rhaglen waith y Flwyddyn Darllen Genedlaethol

Barnwyd am nifer o resymau mai prif ddyletswyddau'r Cydlynnydd a'i Chynorthwy-ydd, a Chyngor Llyfrau Cymru yn eu cyfrifoldeb dros y Flwyddyn fyddai:

- hyrwyddo a hwyluso'r rhaglen waith;
- estyn cymorth ymarferol o bob math er mwyn sicrhau fod y digwyddiadau a'r elfennau yn y rhaglen yn cael eu cyflawni a'u cwblhau, a;
- sicrhau fod y prosesau monitro a gwerthuso yn cael eu dilyn a'u bod yn effeithiol, gan gymryd y camau oedd yn angenrheidiol o bryd i'w gilydd i sicrhau hynny.

Nid oedd bwriad i greu fframwaith weinyddol feichus. Yr oedd yn hysbys fod nifer y galwadau ar amser swyddogion mewn llywodraeth leol, ac mewn asiantaethau, sefydliadau ac ysgolion o bob math fyddai'n gallu bod yn bartneriaid yng ngwaith y Flwyddyn, yn fynych a thrwm yn barod, a bod llawer iawn ohonynt yn gweithio ar ystod eang o gynlluniau arloesol o fewn eu sefydliadau eisoes.

Rhoddwyd y prif bwyslais gweinyddol gan swyddogion y Flwyddyn Darllen yn ganolog felly ar:

- gynnal perthynas gyson, aml a chlòs gyda'r cydlynwyr lleol, amrywiol bartneriaid a deiliaid contractau y cynlluniau penodol;
- gyflawni pa waith bynnag fyddai'n angenrheidiol er mwyn sicrhau llwyddiant y cynlluniau a'r ymgyrchoedd penodol, sef 'Cymunedau'n Darllen', 'Wythnos Llyfr yn Anrheg', a 'Chlybiau 08', ac ar
- godi ymwybyddiaeth gyffredinol o'r Flwyddyn trwy gynhyrchu deunyddiau, cynnal y wefan, dosbarthu gwybodaeth a sicrhau sylw yn y cyfryngau.

Trwy hynny, fe sicrhawyd bod dulliau arolygu, monitro, adrodd ac olrhain gweithgarwch yn cael eu rhoi yn eu lle, yn bennaf ar sail cyfathrebu cyson. Fe ategwyd y dulliau hynny trwy greu nifer o holiaduron byr a thafenni pwrpasol fyddai'n casglu gwybodaeth sylfaenol am y trefniadau a sefydlwyd yn lleol ac am y rhaglen a gynlluniwyd, a'r cynlluniau penodol a ddyfarnwyd ar sail contract. Yr oedd y tafenni a'r holiaduron hynny hefyd yn casglu gwybodaeth ac ymateb oddi wrth y sawl fu'n rhan o'r rhaglen waith – yn ddarparwyr, yn drefnwyr ac yn gyhoedd. Trefnodd nifer dda o'r awdurdodau lleol eu bod hwythau yn casglu ymateb ychwanegol gan y cyhoedd i'r digwyddiadau a'r rhaglen, gan eu bod wedi hen arfer gwneud hynny bellach ac yn gweithredu i wella gwasanaethau lleol ar sail gwybodaeth o'r fath. Mae'n hysbys fod natur ambell raglen waith a gynhwyswyd yn y Flwyddyn Darllen Genedlaethol wedi cael ei haddasu er mwyn sicrhau llwyddiant yr arlwy.

Lluniwyd a dosbarthwyd y tafenni a'r holiaduron canlynol, er nad oedd rheidrwydd ar neb i'w defnyddio i gyd am y rhesymau a nodwyd eisoes.

Ar gyfer cydlynwyr yr awdurdodau lleol:

Pro Forma A: gwybodaeth am y Pwyllgor Llywio a'r aelodau, ac am bartneriaid eraill oedd yn aelodau ohono;

Pro Forma B: oedd yn cofnodi'r defnydd a wnaed o logo a dulliau brandio'r Flwyddyn Darllen o fewn yr awdurdod ac o fewn y rhaglen waith yn gyffredinol;

Pro Forma C: rhestr o ddigwyddiadau a gweithgareddau, i'w dychwelyd i Gyngor Llyfrau Cymru fesul tri mis, yn cynnwys dyddiad, enw trefnydd, lleoliad a'r prif fanylion am gynnwys y digwyddiad;

Pro Forma D: yn cofnodi ymateb trefnyddion y digwyddiadau i gynnwys y rhaglen a luniwyd yn lleol ac yn genedlaethol, yn nodi niferoedd oedd yn bresennol yn y digwyddiadau, ac yn ceisio gwybodaeth am y bwriad i barhau â'r math o waith a gynhaliwyd, a'i gynaliadwyedd;

Pro Forma E: yn cofnodi ymateb y sawl fu yn y digwyddiadau. Yr oedd yr holiadur hwn yn cynnig ystod o raddfeydd bodlonrwydd – o'r cwbl anfodlon i'r bodlon iawn, ac yn gofyn am arwydd o werth y digwyddiad i'r unigolyn, a'r canlyniad.

Clybiau 08:

Ffurflen Arfarnu: oedd yn rhoi cyfle i arweinwyr y Clybiau fynegi barn am y trefniadau gweinyddol ac am eu profiad wrth arwain clybiau darllen.

Yn ychwanegol at hynny, gwahoddwyd pawb yng Nghymru oedd yn dymuno bod yn rhan o'r Flwyddyn i gofnodi eu gweithgarwch perthnasol ar wefan y Flwyddyn Darllen Genedlaethol – yn drefnwyr ac yn gyfranogwyr, ac i fynegi barn am eu profiad o weithgareddau'r Flwyddyn Darllen Genedlaethol ar y wefan honno hefyd. Cyfeirir ymhellach at y wefan hon, y profiad o'i defnyddio, a'i gwerth, yn ddiweddarach yn yr Adroddiad.

3.6 Gweithredu'r rhaglen waith

Barnwyd o'r cychwyn mai'r ffordd fwyaf effeithiol a chyflym o greu rhaglen o weithgareddau perthnasol i ddibenion ac amcanion Blwyddyn Darllen Genedlaethol, ac o ddenu diddordeb y nifer fwyaf o gyrff a sefydliadau perthnasol, a sicrhau cyfraniad eang yng ngweithgarwch y Flwyddyn Darllen Genedlaethol yn gyffredinol o fewn amserlen gyfyng, oedd trefnu cydweithrediad ffurfiol pob awdurdod lleol yng Nghymru, gan eu gwahodd i benodi Cydlynnydd Lleol.

Bu'r broses honno yn llwyddiannus, ac fe sicrhawyd cydweithrediad pob awdurdod lleol yng Nghymru. Enwebwyd person o fewn pob awdurdod i fod yn gydlynnydd y gweithgareddau ar ran y sir.

Anogwyd pob cydlynnydd i sefydlu pwyllgor llywio lleol fyddai'n cwmpasu gymaint ag a oedd yn bosibl o amcanion cyffredinol a phenodol y Flwyddyn Darllen Genedlaethol. Gwnaed hynny gan nifer o'r awdurdodau, ond mewn ambell awdurdod neilltuwyd person fel cydlynnydd fyddai'n cydweithio ag eraill o fewn yr awdurdod yn ôl y gofyn yn hytrach na chreu pwyllgor llywio ffurfiol, ac mewn ambell awdurdod fe ffurfiwyd pwyllgor lleol er mwyn creu syniadau a dynodi gweithgareddau yn unig, yn hytrach na'u gweinyddu a'u rheoli.

Trwy batrwm amrywiol felly, cafwyd cyfraniad gwerthfawr gan ystod eang o arbenigwyr perthnasol. Trwy sicrhau cefnogaeth yr awdurdodau lleol, ystyriwyd y gellid cael rhaglenni gwaith lleol fyddai'n cyfrannu at gyrraedd amcanion y Flwyddyn Darllen, gan adlewyrchu'r anghenion a'r blaenoriaethau yn lleol ar yr un pryd – a hynny a gafwyd.

Mae'r ystod o arbenigedd a gynrychiolwyd ar y pwyllgorau llywio lleol yn drawiadol ac yn gyfoethog iawn. Yr oedd aelodaeth y gwahanol bwyllgorau ledled Cymru ychydig yn wahanol wrth reswm, am eu bod yn adlewyrchu trefniadau corfforaethol o fewn yr awdurdodau, a'r blaenoriaethau gwasanaeth a ddynodwyd yn lleol. Ond yr oedd y rhan fwyaf o'r pwyllgorau a sefydlwyd yn cynnwys cyfuniad o rai o'r canlynol: ymgynghorwyr ym maes sgiliau sylfaenol a llythrennedd, swyddogion cydlynu dysgu wedi oriau ysgol, prifathrawon ysgolion, llyfrgellwyr gwaith ymestyn a marchnata, cydlynwyr iaith a chwarae a chydlynwyr gwasanaethau ar gyfer plant mewn gofal, athrawon ymgynghorol y Gymraeg a Saesneg, cydlynwyr sgiliau sylfaenol ymhlith oedolion, swyddogion dysgu ymhlith teuluoedd, swyddogion addysg blynnyddoedd cynnar a chyfnodau allweddol arbennig, swyddogion gwella ansawdd a chanlyniadau addysg, rheolwyr gwasanaethau ar gyfer y gymuned ac ieuenctid, rheolwyr gwasanaethau theatr a rheolwyr

gwasanaethau treftadaeth a'r celfyddydau, gweinyddwyr canolfannau gofal ar gyfer yr henoed, llyfrgellwyr plant ac ysgolion, ymgyngorwyr addysg hŷn, swyddogion amgueddfeydd, swyddogion hyrwyddo darllen, athrawon arbenigol Saesneg a Chymraeg, swyddogion hyrwyddo chwaraeon, swyddogion addysg ar gyfer oedolion, swyddogion hyrwyddo iechyd cymunedol, a llawer mwy.

Gellir dweud bod yr awdurdodau wedi ymateb yn gryf a chymwys i'r sialens a osodwyd iddynt, sef cynnig ymgyrchoedd hyrwyddo a datblygu darllen mewn cyd-destunau gwahanol a heriol. Yn yr achosion hynny pryd na sefydlwyd pwyllgor llywio lleol, aelod o staff y gwasanaeth llyfrgell fu'n bennaf gyfrifol am gydlynu gwaith yr awdurdod.

O ran gweinyddu'r ymgyrchoedd yn gyffredinol, y tueddiad oedd cadw'r gwaith o fewn cylchoedd gorchwyl adrannau'r awdurdod lleol, ac er bod yr ystod hwnnw o gyfrifoldebau'n un eang, cymharol ychydig o sefydliadau a phartneriaid o'r tu allan oedd yn cael eu cynrychioli fel aelodau o'r pwyllgorau llywio, er bod y rhaglen waith a ddatblygwyd yn dibynnu'n helaeth iawn ar gyfraniadau o bob math gan wahanol gyrff, mudiadau a sefydliadau yn y cymunedau. Bydd yr Adroddiad hwn yn sôn mwy am hynny yn y man wrth fwrw golwg ar amrywiaeth y rhaglenni gwaith a ddatblygwyd yn ystod y Flwyddyn Darllen Genedlaethol.

Priodol yw nodi serch hynny fod yr awdurdodau wedi ymateb yn ymroddedig, gan neilltuo amser, adnoddau a chryn ddyfeisgarwch a gwreiddioldeb i'r dasg a osodwyd ar eu cyfer, yn arbennig o gofio nad oedd cyllideb y Flwyddyn Darllen yn ddigonol i gynnig iddynt unrhyw adnoddau ychwanegol i'w gwario ar eu cynlluniau. Mewn cyfnod pan mae'r awdurdodau'n teimlo eu bod dan bwysau o ran adnoddau, bu hwn yn gyfraniad sylweddol, ac yn gyfraniad cwbl allweddol o safbwynt cyrraedd y nod o 2,008 o ddigwyddiadau a mwy o fewn y Flwyddyn.

4. Gweithgaredd y Flwyddyn Darllen Genedlaethol yn 2008

4.1 Y digwyddiadau a drefnwyd gan y cydlynwyr lleol

Nodwyd eisoes bod targed wedi'i osod gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, Jane Hutt AC, ar gyfer graddfa'r gweithgarwch a ddisgwylyd, sef 2,008 o ddigwyddiadau yn y flwyddyn. Erbyn diwedd Rhagfyr 2008 yr oedd 2,509 o ddigwyddiadau wedi'u trefnu a'u cyflwyno.

O'r safbwynt hwnnw felly, fe ellir cofnodi fod y Flwyddyn Darllen Genedlaethol wedi llwyddo, a bod cyfraniad yr awdurdodau lleol a'r cydlynwyr lleol fu'n gweithio ar y gwahanol ymgyrchoedd wedi bod yn allweddol wrth gyflawni'r dasg honno.

Nid swyddogaeth Adroddiad o'r math hwn yw disgrifio'r rhaglen amrywiol a chyfoethog a drefnwyd mewn unrhyw fanylder: gellir canfod hynny ar wefan y Flwyddyn. Er hynny, mae'n bwysig nodi'r canlynol:

- bu gweithio ar sail partneriaethau yn amlwg wrth ddarparu'r arlwy – partneriaethau rhwng adrannau llywodraeth leol, cyrff cyhoeddus, y sector wirfoddol, y sector fasnach ac eraill. Trafodir hyn yn fanylach mewn man arall yn yr Adroddiad hwn;

- harneisiwyd amrywiaeth anhygoel o ddigwyddiadau, achlysuron, gweithgarwch a syniadau wrth ddatblygu a chyflwyno arlwy'r Flwyddyn;
- bu ymateb y cyhoedd yn rhagorol o safbwynt niferoedd yn mynychu'r digwyddiadau, ac o safbwynt lefel eu bodlonrwydd â natur y rhaglen a gynigiwyd iddynt. Er nad yw'r cyfan o'r wybodaeth wedi'i choladu a'i dadansoddi eto – fe gofir bod yr Adroddiad hwn yn cael ei lunio cyn i holl waith y Flwyddyn ddod i ben er mwyn cyrraedd targed y Gynhadledd diwedd blwyddyn – gellir cynnig yr ystadegau arwyddol canlynol:

4.1.1 Cyfranogiad/Presenoldeb

Gan fod trefnwyr y digwyddiadau wedi cofnodi presenoldeb, bu'n bosibl cyfrifo cyfartaledd y niferoedd fu'n rhan o'r gwahanol raglenni ar sail sampl sylweddol o dystiolaeth ac ystadegau.

Cyfartaledd y presenoldeb neu'r cyfranogiad oedd 43.63 o bersonau ar gyfer pob digwyddiad, gyda'r amrediad o DDIM cyfranogwyr (digwyddiadau a ddiddymwyd oherwydd diffyg diddordeb neu dywydd gwael a rhesymau eraill) i 333. Trwy luosi hynny â chyfanswm y digwyddiadau ac ychwanegu nifer y bobl fu yn y digwyddiadau arbennig yn y Barri, Llanelli a niferoedd aelodau Clybiau 08, gellir bod yn sicr bod dros 106,000 o bobl o bob oed wedi cymryd rhan uniongyrchol yng ngweithgarwch y Flwyddyn Darllen Genedlaethol yn 2008.

4.1.2 Bodlonrwydd ymhlith y cyfranogwyr

Cafodd y sawl a fynychodd y digwyddiadau, yn oedolion a phlant, gyfle i fynegi lefel eu bodlonrwydd â'r hyn a gynigiwyd iddynt gan raglenni gweithgareddau y Flwyddyn Darllen Genedlaethol. Rhoddwyd cyfle i roi barn gyferbyn ag amrediad o safbwyntiau rhwng Gwych a Siomedig, yn cyfateb i saith graddfa o fodlonrwydd. Cafwyd y canlyniadau neu'r ymatebion canlynol:

	%
Gwych	10.00
Graddfa 5	58.00
Graddfa 4	25.00
Graddfa 3	3.00
Graddfa 2	2.00
Graddfa 1	1.00
Siomedig	0.37

Roedd 93% o'r cyfranogwyr felly yn mynegi lefelau uchel o fodlonrwydd. Cofnododd nifer fechan iawn o bobl eu bod yn anfodlon â'r digwyddiad arbennig am nad oedd ym maes eu diddordeb neu am fod gormod o bobl yn bresennol a bod adnoddau felly'n brin, neu am na chafwyd digon o gyfle i gymryd rhan mewn rhyw weithgarwch arbennig.

O ran y trefniadau, cafodd y cyfranogwyr yr un cyfle i fynegi safbwynt ar yr un graddfeydd. Cafwyd y canlyniadau canlynol:

	%
Gwych	10.00
Graddfa 5	57.00
Graddfa 4	28.00
Graddfa 3	3.00
Graddfa 2	1.50
Graddfa 1	0.11
Siomedig	0.17

Natur gyfyng y lleoliad neu brinder adnoddau arbenigol oedd y gŵyn a leisiwyd gan nifer fechan iawn o bobl. Yr oedd 95% o'r cyfranogwyr felly'n fodlon iawn â'r trefniadau, ac mae hynny'n glod i'r trefnwyr dros Gymru gyfan.

- 4.1.3** Nododd 87% o'r ymatebwyr bod y digwyddiadau wedi'u hannog a'u hysbrydoli i ddarllen mwy.
- 4.1.4** Nododd 67% o drefnwyr digwyddiadau y Flwyddyn Darllen Genedlaethol yn 2008 eu bod yn bwriadu cynnal rhaglenni o weithgareddau yn 2009, sy'n ymateb pwysig, ond fe nododd nifer ohonynt, a rhai o'r lleill nad oedd yn dymuno datgan barn, beth ansicrwydd ynglŷn ag argaeledd adnoddau yn y dyfodol.
- 4.1.5** Mae'r wybodaeth am hysbysrwydd ar gyfer y digwyddiadau ar yr holiaduron yn dra diddorol – nodwyd amrywiaeth mawr o leoedd lle y gwelwyd neu y cafwyd gwybodaeth am y digwyddiadau, o sgwrs mewn siop sglodion, i hysbyseb mewn papur lleol, gwybodaeth gan athrawes ysgol neu gymydog neu aelod arall o'r teulu. Mae'r holiaduron (Pro forma E) yn cynnig stôr o wybodaeth fyddai'n ddefnyddiol ar gyfer trefnwyr digwyddiadau'r dyfodol.

4.2 Canfyddiadau am werth y Flwyddyn Darllen Genedlaethol – y digwyddiadau lleol

Datblygiad dros y tymor hir, a gwaith parhaus, yw hybu darllen a hyrwyddo sgiliau sy'n gysylltiedig â darllen a mwynhau llyfrau, ac ni fyddai'n gymwys ceisio dod i gasgliadau diffiniol o fewn ychydig wythnosau i ddiwedd y Flwyddyn. Er hynny gellir canfod digon o dystiolaeth eisoes sy'n dangos:

- **fod nifer dda o bobl wedi darganfod a chydabod gwerth darllen a llyfrau am y tro cyntaf:**

- 'Mae darllen yn debyg o wella fy ngallu i sillafu...'
- 'Does gen i ddim amser i ddarllen ond mae'n amlwg yn bwysig i'r plant...'
- 'Bydd hyn yn help i wella cyflwr fy addysg...'
- 'Bydd darllen yn help i mi wrth i mi geisio mynd ymhellach mewn bywyd...'
- 'Bydd gallu darllen yn gymorth wrth i mi chwilio am waith yn y dyfodol...'
- 'Byddaf yn gallu ysgrifennu'n well...'
- 'Dwi'n meddwl fod darllen yn bwysig wrth ddysgu siarad Cymraeg...'
- 'Mae darllen yn sgil pwysig mewn bywyd...'
- 'Mae darllen yn cynnig gwell mynediad i ochr dychymyg pethau...'
- 'Fues i ddim yn y llyfrgell o'r blaen – mae'n dda...'
- 'Fy nghariad mawr i ydy pêl droed, ond dwi'n mynd i ddod i'r llyfrgell nawr i fenthylgw stwff i helpu gyda gwaith ysgol...'
- 'Mae darllen yn debyg o greu dychymyg da a sgiliau cyfathrebu gwell...'

'Bydd darllen yn gymorth wrth greu cyswllt rhyngof a'm plentyn a phan fydd yn dysgu...'

'Bydd darllen yn fy ngwneud i yn fwy smart...'

- **fod nifer dda o bobl wedi ailddarganfod y pleser a'r gwerth a geir o ddarllen a thrafod llyfrau:**

'Rydyn ni'n aelodau yn y llyfrgell, ond fyddwn ni ddim yn dod yn aml, ond fe fyddwn yn dod yn amlach nawr gan fod y plant am fod yn rhan o'r gweithgareddau...'

'Cefais nifer fawr o syniadau newydd a byddaf yn eu defnyddio yn fy ngwaith...'

'Syniadau newydd gwych ar gyfer y dyfodol...'

'Profiad annisgwyl o wych...'

- **a bod llawer iawn o bobl wedi cael pleser a budd o fod yn rhan o ymgyrch a atgyfnerthodd eu cariad at lyfrau a darllen a'u dealltwriaeth o'u gwerth:**

'Mae darllen yn rhan fawr o fy mywyd i'

'Cefais brawf pwysedd gwaed a llyfr i ddarllen am fy iechyd...'

'Mae darllen yn llawer gwell na gwyltio teledu...'

'Mae darllen yn help mawr wrth gyfansoddi barddoniaeth ac yn fy ysgrifennu creadigol'

'Darllen yw fy hoff gymar, y mae yn fy nghynnal ac yn fy addysgu, Ac mae ein llyfrgelloedd ar gael yn rhad ac am ddim...'

'Mae darllen yn fy ngwneud yn ddinesydd y byd...'

'Mae'n help i gadw'r pethau tywyll draw, fel henaint...'

'Mae'n help wrth i mi geisio mynegi fy nheimpladau...'

'Mae'n gymorth mawr i fy hyder personol...'

'Mae darllen yn rhoi ysbrydoliaeth, yn ysgogi'r broses o feddwl...ac yn rhoi cyfle i ddianc...'

'Mae darllen yn hanfodol fel rhan o fywyd'

'Dyma ffynhonnell bywyd...'

'Dyma'r ffordd i ehangu fy ngorwelion o safbwynt gweithgarwch dynol a chynnal perthnasau...'

'Mae darllen yn darparu gwybodaeth ac yn ysbrydoli, mae'n cynnig syniadau newydd i mi ac yn gwella fy nealltwriaeth o ddyheadau, barnau ac ofnau...'

'Trwy ddarllen gallwch gwrdd â meddyliau eraill'

'Mae darllen yn cynnig mwynhad pur...'

'Mae darllen yn hanfodol i addysg, i ddatblygiad ac i wreiddioldeb y meddwl...'

'Rydyn ni wedi mwynhau'r digwyddiad yn fawr, mae hyd yn oed fy mab deg oed am ddarllen barddoniaeth nawr...'

'Mae'n amlwg fod gan y llyfrgell lawer iawn i'w gynnig...'

'Roedd y digwyddiad yn fywiog ac yn fwynhad mawr, a bydd yn sicr o wneud i mi ddarllen mwy yn y dyfodol...'

'Mae darllen yn ffordd wych o ymlacio, ac yn help mawr wrth i mi geisio gwneud fy ngwaith...'

'Mae fy hoff awduron wedi dod yn gyfeillion mynwesol...'

'Mae'n cynnig y rhodd bwysig honno – y gallu i gyfathrebu...'

'Does dim amheuaeth nad yw llyfr da yn agor drysau ac yn ysgogi'r meddwl'

'Yr oedd y digwyddiad yn hollol wych. Wedi ei drefnu mor dda ac yn llawn hwyl...'

'Cefais y syniad o ysgrifennu hunangofiant yn y gobaith y bydd pobl eraill yn dysgu oddi wrth fy nghamgymeriadau...'

'Mae'n rhaid i mi ddarllen, alla i ddim byw hebdo...'

'Roedd y digwyddiad yn wych ac wedi'i drefnu'n ardderchog...'

'Roedd hwn yn ddigwyddiad oedd yn dangos ôl meddwl a gwaith paratoi manwl, ac yr oedd yn addas iawn ar gyfer anghenion y gynulleidfa...'
'Roedd popeth yn fwyhad, gawn ni fwy os gwelwch yn dda...?'

Gellir canfod mwy o dystiolaeth am ddylanwad y Flwyddyn Darllen yn yr adrannau isod sy'n trafod yr ymgyrchoedd a'r cynlluniau penodol, a'r digwyddiadau ategol a drefnwyd.

5. Y cynlluniau penodol

Yn dilyn y trafodaethau ar brif drywydd a phrif amcanion Blwyddyn Darllen Genedlaethol 2008 yn y Pwyllgor Llywio, cytunwyd y dylid llunio nifer o gynlluniau penodol ac allweddol ar gyfer Cymru fyddai'n darparu ffocws arbennig i'r Flwyddyn, a chan ategu'r rhaglenni gwaith amrywiol y byddai'r awdurdodau lleol yn eu cydlynu. Ar argymhelliad Cyngor Llyfrau Cymru cytunwyd ar dri chynllun allweddol:

- cynllun 'Wythnos Llyfr yn Anrheg'
- cynllun 'Cymunedau'n Darllen'
- cynllun 'Clybiau 08', sef sefydlu rhwydwaith o glybiau darllen, gan dargedu aelodaeth o blith blynyddoedd olaf plant mewn addysg gynradd a blynyddoedd cynnar plant mewn addysg uwchradd, a bechgyn yn arbennig.

Y gobaith oedd y byddai cynnal gweithgareddau allweddol o'r fath yn:

- creu rhaglenni fyddai'n gynaliadwy ac yn goroesi'r Flwyddyn Darllen;
- yn fodd i arbrofi gyda gwahanol fodelau o ran rheoli a threfnu gweithgareddau;
- yn sefydlu arferion da o ran hyrwyddo a hybu darllen yn y Gymraeg a'r Saesneg.

5.1 'Wythnos Llyfr yn Anrheg'

Cynhaliwyd yr ymgyrch hon yn ystod yr ail wythnos ym mis Gorffennaf 2008.

Y bwriad oedd creu cynllun uchel ei broffil fyddai'n dwyn llyfrau a darllen i sylw cynifer â phosib o'r cyhoedd, a hynny drwy weithgarwch syml fyddai'n rhoi pleser i bawb.

Y gobaith oedd medru tanlinellu'r neges fod:

- y Flwyddyn Darllen Genedlaethol ar gyfer pawb, ac nad oedd oedran, cefndir na hyd yn oed lefel llythrennedd yn bwysig o ran bod yn rhan ohoni;
- derbyn neu roi llyfr yn anrheg yn arfer cyffrous, diddorol a gwerthfawr. Ceisiwyd cyfleu'r neges fod llyfr yn anrheg dderbyniol bob amser, ac yn anrheg ddelfrydol mewn llawer o gyd-destunau arbennig. Dewis y llyfr cywir i'r person cywir yw'r gamp yn ôl yr hyn a bwysleisir gan addysgwyr a llyfrgellwyr.

Ystyriwyd y byddai'r ymgyrch yn ffordd dda o sicrhau cefnogaeth i'r Flwyddyn Darllen Genedlaethol gan unigolion a sefydliadau, ac y byddai hefyd yn debyg o sicrhau sylw sylweddol ar y cyfryngau.

Yr oedd hon yn ymgyrch tra uchelgeisiol, ac er mai'r tîm rheoli bychan a ffurfiwyd o fewn Cyngor Llyfrau Cymru oedd yn bennaf gyfrifol am greu'r cynllun, sicrhawyd cymorth cwmni arbenigol Golley Slater i weithio ar elfennau ar y delweddau creadigol ar gyfer yr ymgyrch, megis brandio a pharatoi deunydd hyrwyddo a hybu. Cafwyd cymorth llaw-rydd i gynnal ymgyrch gysylltu a sicrhau cefnogaeth gan unigolion, sefydliadau a sêr y byd cyhoeddus yng Nghymru.

Cwmni Golley Slater hefyd a ddarparodd gyngor am y cyfuniad gorau o ddulliau fyddai'n taenu neges greiddiol y Flwyddyn Darllen Genedlaethol. Cynhyrchwyd hysbyseb i'w darlledu ar y radio yn Gymraeg ac yn Saesneg; ysywaeth, yr oedd hysbysebu'n ddwys ar y teledu y tu hwnt i adnoddau'r Flwyddyn Darllen. Fe ddarlledwyd yr hysbyseb ar ddeuddeg o orsafoedd radio lleol trwy Gymru gyfan dros gyfnod o bythefnos, gan gyrraedd cynulleidfa botensial o dros filiwn o bobl.

Gwnaed ymdrech arbennig hefyd i dargedu'r papurau bro Cymraeg. Yn wir neilltuodd nifer dda ohonynt dudalen gyfan i'r ymgyrch, gan gynnwys rhoi sylw i lyfrau ac iddynt flas lleol, ac fe hyrwyddwyd yr ymgyrch gan siopau llyfrau lleol yn ogystal.

Cynhyrchwyd ystod sylweddol iawn o ddefnyddiau hyrwyddo ar gyfer yr ymgyrch, oedd yn cynnwys posteri, taflenni, cardiau a bandiau llyfrau, ac fe'u dosbarthwyd yn eang ymhlith ysgolion, llyfrgelloedd, siopau llyfrau, siopau elusen a nifer o sefydliadau. Trwy ddefnyddio siopau elusen, cafwyd modd i gyflwyno neges weladwy ar gyfer yr ymgyrch a'r Flwyddyn Darllen yn ffenestri siopau'r stryd fawr ledled Cymru a chyfle i gydweithio mewn partneriaeth â'r sector wirfoddol yng Nghymru.

Bu cryn ymgynghori cyn lansio'r cynllun, a bu'n rhaid ystyried nifer o elfennau ymarferol fyddai'n llywio cyfeiriad yr ymgyrch. Gwelwyd bod angen:

- brandio clir a syml ar gyfer yr ymgyrch;
- dewis yr amser gorau ar ei chyfer, ac fe roddwyd cryn sylw i'r angen am sicrhau cefnogaeth i'r ymgyrch mewn cyfnod cymharol fyr;
- sicrhau fod yr ymgyrch yn gwneud argraff. Er mai dros gyfnod o wythnos yn unig yr oedd i'w chynnal fel y cyfryw, yr oedd yn ceisio sefydlu arfer da fyddai'n gallu parhau am gyfnodau meithion.

O ran yr amser gorau i'w chynnal, daethpwyd i'r casgliad y dylai'r ymgyrch ddigwydd yn agos at ddiwedd y flwyddyn academaidd mewn colegau, ysgolion a sefydliadau addysgol o bob math, gan gynnig cyfle arbennig i ysgolion gyflwyno llyfrau yn anrheg i'r disgyblion oedd yn ymadael. Fe'i lansiodd ddydd Iau, 19 Mehefin 2008 ar Heol y Frenhines yng nghanol Caerdydd yng nghwmni'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Addysg Gydol Oes a Sgiliau, a Simon Weston, y cyn-filwr a'r ymgyrchwr dros hawliau o bob math. Roedd cynrychiolydd o ymgyrch Apêl Arch Noa yno hefyd i gydnabod derbyn gwerth mil o bunnoedd o lyfrau yn rhodd i Ysbyty Plant Cymru i nodi lansio Wythnos Llyfr yn Anrheg. Cyflwynwyd llyfrau yn anrheg i lu o aelodau'r cyhoedd ar eu hawr ginio, a chafwyd ymateb brwdfrydig a gwerthfawrogol.

Dilynwyd y lansiad hwnnw gan ymgyrch e-bostio yn anfon negeseuon syml yn annog pobl i gymryd rhan yn yr ymgyrch. Drwy gysylltu â nifer o sefydliadau, mudiadau a chymdeithasau, fe anfonwyd tua 164,000 o negeseuon at unigolion mewn cyfnod o dair wythnos.

Yn unol ag arfer y dydd, sicrhawyd cefnogaeth a chyfranogiad gan unigolion amlwg ac enwog o'r byd teledu, y byd chwaraeon a'r byd gwleidyddol. Fe'u perswadiwyd i gynnig llyfrau yn anrhegion i'w cyfeillion gan becynnu'r rhoddion a'r haelioni yn eitemau deniadol ar gyfer denu sylw'r wasg yn lleol ac yn genedlaethol.

Yn ôl cyfrifiad a gynhaliwyd gan gwmni Golley Slater gan ddilyn seiliau ac arferion cydnabyddedig cyfrifiadau y byd cysylltiadau cyhoeddus:

- sicrhawyd bod 14 erthygl neu ddeunydd nodwedd wedi ymddangos yn y wasg, gan gynnig bron i £38,000 o werth cyfatebol mewn hysbysebion, a gwerth cysylltiadau cyhoeddus o dros £113,000;
- cafwyd sylw sylweddol ar y cyfryngau.

Ar wahân i'r sylw a'r hysbysrwydd cyffredinol tra gwerthfawr a ddenwyd, gellir crybwyll nifer fechan o blith nifer fawr o ddigwyddiadau arbennig a gynhaliwyd yn sgil yr ymgyrch hon, er mwyn rhoi blas o'r hyn a gyflawnwyd. Derbyniodd pob disgybl oedd yn ymadael ag Ysgol Danygraig Abertawe rodd o lyfr gan yr ysgol; cyflwynodd cangen Aberystwyth o Ferched y Wawr a Honno (Gwasg Menywod Cymru) gasgliad o lyfrau i loches menywod Aberystwyth; aeth disgyblion o Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon â detholiad o lyfrau'n anrheg i blant yn Sambia tra oeddynt yn ymweld â'r wlad honno, a chyflwynwyd gwerth mil o bunnoedd o lyfrau yn rhodd i Ysbyty Plant Cymru fel y nodwyd eisoes. Dosbarthodd Gwasg Accent 1,500 o lyfrau yn rhad ac am ddim ymhlith y 5,000 o bobl a gyflogwyd gan gwmni Corus yn eu safleoedd yng Nghymru, fel rhan o ymgyrch i hybu darllen ymhlith y gweithlu.

Derbyniodd aelodau o Gabinet Llywodraeth Cynulliad Cymru lyfr yn anrheg hefyd – a Maer newydd Llundain!

Rhoddwyd lluniau nifer o roddwyr amlycaf yr anrhegion ar wefan y Flwyddyn er mwyn hyrwyddo'r ymgyrch, ac fe gofnodwyd eu rhesymau dros ddewis y llyfrau a roddwyd ganddynt.

Sefydlwyd yr egwyddor o roi llyfrau'n anrheg o gyfnod y lansiad swyddogol wrth i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, gyflwyno gwerth £30,000 o lyfrau i grwpiau cymunedol. Rhoddwyd 360 o lyfrau i bob awdurdod llyfrgell yng Nghymru i'w rhannu rhwng amrywiaeth o grwpiau yn eu hardaloedd.

Dosbarthwyd casgliadau o lyfrau yn anrheg:

- i grwpiau cymunedol, megis canolfannau adfer lleol, grwpiau sgiliau sylfaenol, canolfannau cymunedol hyfyw, canolfannau dydd o wahanol fathau;
- i grwpiau o blant ac ieuencid dan anfantais ac i deuluoedd dan ofal y gwasanaethau cymdeithasol;
- i ganolfannau teulu, clinigau, ysbytai a hosteli i'r digartref;
- i grwpiau chwarae a meithrin;
- i garchardai;

- i drigolion cartrefi gwarchod a chartrefi preswyl i'r henoed;
- i ysgolion arbennig;
- i grwpiau o ddysgwyr y Gymraeg, ac
- i lochesi i fenywod.

Hanner ffordd trwy'r Flwyddyn, yr oedd dros gant o grwpiau cymunedol o'r fath ledled Cymru wedi derbyn rhoddion o lyfrau, ac fe barhaodd y gwaith yn ystod gweddill y Flwyddyn. Trwy'r haelioni hwn a gweithgareddau penodol eraill, cyffyrddodd y Flwyddyn Darllen â chymunedau arbennig eu natur a'u hanghenion.

5.2 'Cymunedau'n Darllen'

Gan ddefnyddio model a ddefnyddiwyd yn llwyddiannus mewn sawl gwlad erbyn hyn – megis y 'reading cities' yn Lloegr a'r Unol Daleithiau – mabwysiadwyd y cynllun hwn a'i addasu ar gyfer Cymru. Y bwriad oedd gwahodd dwy gymuned i drefnu ystod o weithgareddau dros gyfnod penodol a dwys yn y cyfnod rhwng Medi a Hydref, yn seiliedig ar ddewis dau lyfr, un yn Gymraeg a'r llall yn Saesneg. Yr oedd disgwyl y byddai'r cynllun yn:

- creu gweithgarwch fyddai'n gynaliadwy ac yn goroesi'r Flwyddyn Darllen;
- atgyfnerthu'r arfer o weithio o fewn partneriaethau;
- hyrwyddo perchnogaeth ar y cynllun o weithgarwch drwy gynnal gweithgareddau fyddai'n caniatáu i drigolion y cymunedau ddewis a dethol y llyfrau fyddai'n sail iddynt;
- creu gweithgarwch amrywiol wedi'i leoli mewn amrywiaeth eang o leoliadau;
- denu cyhoeddusrwydd a sylw'r cyfryngau;
- creu patrwm profedig o weithgarwch y gellid ei osod ar wefan y Flwyddyn Darllen, ac y gellid ei efelychu a'i ddefnyddio eilwaith mewn cymunedau eraill ledled Cymru.

Gwahoddwyd pob awdurdod lleol trwy Gymru i ymgeisio am y gwaith o gynnal ymgyrch Cymunedau'n Darllen trwy gydweithrediad parod Cymdeithas y Prif Lyfrgellwyr yng Nghymru, ac ar sail cystadleuaeth agored am yr adnoddau o £20,000 a glustnodwyd ar gyfer yr ymgyrchoedd yn y naill gymuned a'r llall, y ddwy gymuned a ddewiswyd ar gyfer y cynllun oedd Barri ym Mro Morgannwg, a Llanelli yn Sir Gaerfyrddin.

5.2.1 Cymunedau'n Darllen – y Barri

Lluniwyd rhaglen amrywiol gan gymuned y Barri dan arweiniad y gwasanaeth llyfrgell. Yr oedd pum prif elfen iddi:

- ymgyrch bleidleisio a fyddai'n sail i'r prif weithgareddau, gan y gymuned ei hunan. Rhoddwyd y teitl 'Dewis Llyfr Difyr' i'r ymgyrch hon;

- rhaglen ddwys o weithgareddau a gynhaliwyd dros un penwythnos, ac a alwyd yn 'Dathlu Darllen Difyr';
- cynllun ysgrifennu creadigol;
- creu murlun cyhoeddus;
- cynnal rhaglen o weithgareddau yn seiliedig ar gyfraniad awdur preswyl.

'Dewis Llyfr Difyr'

Yr oedd dewis y llyfrau fyddai'n adlewyrchu chwaeth ddarllen y gymuned yn sialens sylweddol iawn. Cafwyd cefnogaeth nifer dda o bartneriaid oedd yn cynnwys grwpiau darllen lleol, tiwtoriaid addysg i oedolion, swyddogion cyfleoedd cyfartal a swyddog y Gymraeg o fewn yr awdurdod lleol, siopau llyfrau lleol, athrawon ysgol, Merched y Wawr ac eraill. Lluniwyd panel o blith y mudiadau a'r sefydliadau hyn er mwyn llunio rhestr fer o deitlau. Ceisiwyd cynnig rhestr fyddai'n cynnwys rhai llyfrau ac iddynt flas lleol a Chymreig.

Dosbarthwyd blychau pleidleisio i ystod eang o fannau – canolfannau hamdden, llyfrgelloedd, siopau llyfrau, swyddfeydd y Cyngor, a chanolfannau mudiadau gwirfoddol o fewn y dalgylch. Yr oedd modd hefyd i bleidleisio trwy gyfrwng gwefan y Flwyddyn Darllen. Cynhaliwyd y bleidlais dros gyfnod o chwe wythnos dros yr haf a phleidleisiodd 649 o bobl. Prynwyd cyflenwadau o'r teitlau ar y rhestr fer gan y gwasanaeth llyfrgell a bu'r galw amdanynt yn uwch na'r disgwyl am fod pobl am ddarllen y cyfan oedd ar y rhestr cyn bwrw'u pleidlais!

Rhaglen o weithgarwch – Dathlu Darllen Difyr

Daeth 423 o bobl i'r rhaglen o ddigwyddiadau a gynhaliwyd yn llyfrgell ac oriel gelf newydd y Barri dros un penwythnos, gyda thraean ohonynt yn cofnodi nad oeddent wedi bod mewn digwyddiad cyffelyb o'r blaen nac wedi bod mewn llyfrgell gyhoeddus o'r blaen. Mynegodd 98% ohonynt eu bod wedi cael budd a mwynhad o fod yn y digwyddiadau, a nododd 86% ohonynt eu bod wedi canfod rhywbeth newydd am y byd llyfrau a llenyddiaeth yn ystod eu hymweliad. Gellir gweld ystod a natur y rhaglen hon ar wefan y Flwyddyn Darllen.

Yr awdur preswyl

Yr awdur preswyl, Michael Harvey, a gafodd y dasg o ddarllen a thrafod y ddau lyfr a ddaeth i'r brig yn y bleidlais gyhoeddus gyda grwpiau cymunedol amrywiol. Cynhaliwyd y darlenniadau a'r grwpiau trafod hynny yn ystod penwythnos Dathlu Darllen Difyr yn y llyfrgell gyhoeddus, a hefyd mewn dosbarthiadau o ddysgwyr Cymraeg, mewn cartref nyrsio, gyda Grŵp Darllen a chyda disgyblion chweched dosbarth yr ysgol uwchradd ddwyieithog leol. Cafwyd ymateb cadarnhaol iawn oddi wrth y rhai fu yn y sesiynau hyn – 'yr oedd y darllen yn dod â'r llyfr yn fyw', 'crewyd awyrgylch ledrithiol, ac yr oedd crefft y storiwr yn amlwg' a 'bu'r sesiynau yn eithriadol o werthfawr a byddant yn sicr o ysbrydoli rhagor o'r myfyrwyr i ddarllen mwy...'

Y cynllun ysgrifennu creadigol

Gwelwyd pwyslais ar ymateb i ddyheadau grwpiau o bobl ag anghenion arbennig oedd yn mynychu'r Ganolfan Dysgu Agored yn y Barri wrth gynnal cynllun ysgrifennu creadigol fel rhan o'r ymgyrch. Arweiniwyd yr elfen hon ar yr ymgyrch gan Phil Carradice. Yr oedd galluoedd aelodau'r grŵp yn rhai amrywiol, ac yr

oedd nifer ohonynt yn fewnfudwyr o wledydd tramor. Cynhaliwyd tri gweithdy, ac fe gynhyrchwyd ystod ddiddorol iawn o weithiau creadigol ar derfyn y cynllun. Yn ôl y tiwtoriaid, yr oedd y cynllun wedi ychwanegu at falchder a hunanhyder yr aelodau, ac wedi gwella sgiliau gwranddo, deall a llefaru aelodau'r grŵp, ac yr oedd elfen o fwynhau yn amlwg yn yr holl waith. Fel canlyniad i'r gwaith, mae'r Ganolfan bellach yn cynnal grwpiau darllen hamdden ac yn cynllunio dosbarth ysgrifennu creadigol ar gyfer yr aelodau llai galluog. Mynegodd y rhai fu'n dilyn y gweithdai eu pleser – 'paham na all y cynlluniau hyn fynd ymlaen am gyfnod hwy?', 'cevais gryn sioc o sylweddoli beth yr wyf yn gallu ei wneud...', 'cawsom gryn syndod wrth sylweddoli faint o syniadau a grëwyd gennym...'

Creu murlun

Grŵp o fyfyrwyr o Goleg y Barri, dan arweiniad yr artist cymunedol, Bryce Davies, fu'n cynnal y cynllun hwn. Gosodwyd tasg iddynt i gynhyrchu murlun fyddai'n addas ar gyfer ei arddangos yn barhaol yn adran leuenctid llyfrgell newydd y Barri, gan gynnal thema'r ymgyrch a chyfleu Barri fel cymuned ddarllen. Dadorchuddiwyd y murlun yn ystod y penwythnos o weithgarwch a gynhaliwyd yn y llyfrgell – ymgyrch Dathlu Darllen Difyr – ac y mae'n gofnod parhaol a hardd i'r gwaith a gyflawnwyd gan y gymuned ddarllen hon yn y Barri.

Rheoli a gweinyddu – ystyried y profiad

Yn sgil llwyddiant y cynllun hwn, mae'n fwrriad gan wasanaeth llyfrgell y Barri i gynnal rhaglen o weithgareddau yn 2009, ond ar raddfa lai am nad oes gyllideb benodol ar gael – gan gadw dwy elfen o raglen 2008, sef y bleidlais i ddewis hoff lyfrau'r gymuned a chynnal rhaglen ddwys o weithgareddau. Dewiswyd gwneud hynny am fod y cynllun wedi bod yn llwyddiannus mewn llawer o ffyrdd yn 2008. Yn ddiamau fe lwyddodd y cynllun hwn i:

- ddenu brwdfrydedd y cyhoedd a denu darllenwyr newydd o bob math;
- greu sail ar gyfer cynlluniau anturus a gwahanol trwy sicrhau cydweithrediad parod nifer dda o bartneriaethau;
- hyrwyddo galluoedd a hyder y trefnwyr a'r rheolwyr;
- brofi fod rhai mathau o gynlluniau yn fwy poblogaidd, a bod cynnal rhaglen o weithgarwch dros gyfnod dwys yn debyg o fod yn fwy llwyddiannus na cheisio cynnal brwdfrydedd ar sail rhaglen ysbeidiol dros gyfnod maith;
- brofi fod patrwm dwys o'r math yn debyg o ddenu mwy o gyhoeddusrwydd a sylw;
- godi proffil llyfrau a gwasanaethau llyfrgell o fewn y gymuned, ac ymhlith sefydliadau a chyrrff sy'n dymuno cyfrannu i lwyddiant;
- ddenu nawdd ariannol ychwanegol gan yr awdurdod lleol i gefnogi'r cynllun.

Bu'n bosibl hefyd dod i rai casgliadau pwysig o safbwynt y modd i weithredu yn y dyfodol. Daethpwyd i'r casgliad ar sail profiad y Barri:

- fod angen cytundeb o'r cychwyn ar hanfodion y cynllun ac ar yr elfennau o'i fewn;
- fod amseru cynlluniau yn dra phwysig o ran sicrhau llwyddiant;
- fod angen cyfnod o gynllunio llawer hwy na'r hyn oedd yn bosibl yn 2008, a hynny'n bennaf er mwyn sicrhau fod mwy o amser ar gael ar gyfer cynllunio manwl a gweithredu cynlluniau, ac er mwyn gallu osgoi cyfnodau tawel ym mywyd a gweithgaredd y cymunedau;
- fod cyllideb ychwanegol a digonol yn gwbl hanfodol ar gyfer cynnal rhaglen o weithgarwch arloesol, yn arbennig pan mae angen creu brwdfrydedd a chyfranogiad ar raddfa sylweddol;
- fod cynnal rhaglen o weithgarwch o'r fath yn gofyn am ymroddiad arbennig gan bawb sy'n rhan ohoni, a rhaid bod yn ymwybodol o'r galluoedd sydd wrth law a pha gefnogaeth y gellir yn rhesymol ei disgwyl o gyfeiriadau eraill, ac mae dod i gasgliadau felly hefyd yn gofyn am amser i'w hystyried;
- fod y dull o reoli a fabwysiadwyd gan gymuned y Barri yn ddull llwyddiannus. Tîm o chwech o blith rheolwyr y gwasanaeth llyfrgell fu'n gyfrifol am y gwaith, a phob un ohonynt yn gyfrifol am wahanol agweddau ar y dasg. Mae ffocws clir a dyrannu cyfrifoldebau yn gwbl hanfodol.

5.2.2 Cymuned Llanelli'n Darllen

Yr oedd ymgyrch Cymuned Llanelli'n Darllen ychydig yn wahanol o ran ei harddull, ac yn fwy penodol, sef canolbwyntio'n llwyr ar hyrwyddo a defnyddio dau lyfr. Y bwriad oedd cynnal ymgyrch ddarllen yn seiliedig yn bennaf ar y rhwydwaith o bymtheg o lyfrgelloedd cyhoeddus o fewn dalgylch hwylus i'r dref, lle roedd darllenwyr o fewn y gymuned yn dewis ac yn rhoi sylw i ddwy gyfrol, y naill yn Gymraeg a'r llall yn Saesneg.

Y bleidlais gyhoeddus

Fel yn achos y Barri, gwahoddwyd brodorion cylch Llanelli i bleidleisio – ar gerdyn neu ar y we – dros eu dewis lyfrau o restr fer a ddetholwyd ar eu cyfer, un yn Saesneg a'r llall yn Gymraeg. Yr oedd y rhestr honno yn fwriadol yn cynnwys llyfrau ac iddynt gysylltiadau lleol amlwg, a bu defnyddio'r diddordeb mewn hanes lleol ac mewn awduron lleol yn benderfyniad doeth wrth geisio sicrhau ymateb gan y gymuned.

Bwriwyd dros 600 o bleidleisiau gan y cyhoedd, a daeth dwy gyfrol i'r brig, y naill gan awdur lleol, un a fu'n gweithio fel aelod o'r heddlu yng nghylch Llanelli, a'r llall gan awdur fu'n efaciwi yn Llanelli o Lerpwl adeg yr Ail Ryfel Byd, ond sydd bellach yn byw yn yr Unol Daleithiau. Yr oedd ef yn bresennol yn y digwyddiad i gyhoeddi enwau'r cyfrolau a ddaeth i frig y bleidlais gyhoeddus, ac fe ddarledwyd yr achlysur hwnnw yn fyw ar S4C. Bwriwyd dros 300 o bleidleisiau o blaid y gyfrol Saesneg fwyaf poblogaidd, *Before the Last All Clear* gan Ray Evans, ac yr oedd

Coeliwch neu Beidio, hunangofiant Roy Davies, yn enillydd cryf gyda dros 200 o bleidleisiau yng nghystadlaeth y llyfr Cymraeg.

Hyrwyddo'r cyfrolau

Hanfod yr ymgyrch yn Llanelli oedd denu sylw a chyhoedduswyd i'r llyfrau hynny a ddaeth i'r brig yn y bleidlais, a thrwy hynny annog y gymuned i ddarllen mwy. Cynhaliwyd arddangosfa gyhoeddus yn seiliedig ar y ddwy gyfrol yng nghanol y dref ac mewn canolfan gelfyddydau gyfagos, a llwyddwyd i ddwyn sylw'r cyhoedd at y cyfrolau ar radio a theledu lleol a chenedlaethol, yn enwedig ar y rhaglenni teledu a gynhyrchir yn y dref, ac yn y wasg yn lleol.

Cynhaliwyd dau ddigwyddiad i ddathlu ac anrhydeddu'r awduron a'u cyfrolau – y naill yn Gymraeg a'r llall yn Saesneg. Yr oedd y digwyddiadau hyn yn cynnwys cyfraniadau gan gyhoeddwyr y cyfrolau, darlenniadau ohonynt a hefyd gyflwyniadau amlgyfrwng a theyrngedau llafar.

Ymateb y gymuned

Daeth dros 160 o bobl i'r digwyddiadau oedd yn gysylltiedig â'r cyfrolau, gyda mwy yn ymddiddori yn y dathliad o'r gyfrol Gymraeg, er bod y bleidlais dros lyfrau Saesneg yn uwch. Yn ystod y cyfnod rhwng Gorffennaf a Rhagfyr 2008, sef cyfnod y pleidleisio a hyrwyddo'r cyfrolau, bu cynnydd o 15% yn y benthyciadau o lyfrgell Llanelli, a bu cynnydd o 11% yn y benthyciadau o lyfrau Cymraeg o'r llyfrgell dros yr un cyfnod.

Rheoli a gweinyddu: rhai canfyddiadau

Mae'r profiad o gynnal ymgyrch ar batrwm 'Cymunedau'n Darllen' yn Llanelli wedi esgor ar nifer o ganlyniadau gwerthfawr o ran cynnal ymgyrchoedd cyffelyb yn y dyfodol:

- Mae'r dystiolaeth ystadegol a nodwyd uchod yn awgrymu fod y dull a fabwysiadwyd i hyrwyddo darllen yn y gymuned gan awdurdod llyfrgell Sir Gaerfyrddin yn Llanelli a'r cylch, ar sail rhoi sylw penodol i gyfrolau o ddewis y gymuned ei hunan, yn gallu bod yn effeithiol, yn arbennig pan fydd gogwydd neu thema leol i'r gweithgaredd i gyd;
- Grŵp bychan fu'n llywio'r gweithgarwch yn Llanelli, gyda chymorth y tîm canolog o Gyngor Llyfrau Cymru a llyfrwerthwr yn lleol. Yn ôl profiad y trefnwyr yr oedd manteision i'w cael o weithio trwy gyfrwng tîm bychan, gan fod gan bob aelod o'r tîm ei gyfrifoldeb, gyda llyfrgellwyr y fro yn ategu'r ymdrech;
- Yn y trefniadau gweinyddol ar gyfer y cynllun hwn, fe benodwyd cydlynedd lleol i gynorthwyo gyda'r ymgyrch, ac mae'r patrwm hwnnw yn un a sicraodd lawer o fanteision o ran cyflawni gwahanol elfennau'r cynllun yn unol â'r amserlen a'r amcanion gwreiddiol;
- Fel yn achos y Barri, nodwyd bod yr amserlen a ddynodwyd ar gyfer yr ymgyrch wedi creu rhai anawsterau, yn arbennig am fod cyfnod y pleidleisio yn rhychwantu cyfnod traddodiadol dawel yr haf o ran gweithgaredd diwylliannol a chymunedol;
- Yr un rheswm oedd wrth wraidd y nifer cyfyng o bartneriaethau a sefydlwyd,

ond fe wrthweithiwyd hynny gan lwyddiant y pwyslais ar ddenu cyhoeddusrwydd a sylw'r cyfryngau. Gan fod Llanelli yn dref y cyfryngau erbyn hyn, yr oedd y pwyslais hwnnw'n gymwys ac effeithiol.

Ar wahân i annog pleidleiswyr, ni fu defnydd o wefan y Flwyddyn Darllen yn helaeth yn yr achos hwn, ac mae hynny'n siomedig, ond diau bod rhesymau technegol a chymdeithasol yn cyfrif am hynny. Nid yw pob cymuned na phob carfan o'i mewn mor barod i ymaflyd yn y dechnoleg bob amser, a rhaid dewis a dethol yn ofalus pryd ac ar gyfer beth y dylid defnyddio technoleg mewn ymgyrchoedd darllen. Er hynny, bu'n bosibl i dîm Llanelli lansio blog ac roedd canran sylweddol o'r cyhoedd wedi pleidleisio am eu hoff lyfr trwy'r wefan.

5.2.3 Cymunedau darllen eraill drwy Gymru benbaladr

Trwy gydweithrediad ag ymgyrch farchnata Llyfrgelloedd am Oes CyMAL, a gydlynir gan Wasanaeth Llyfrgell Cyngor Bwrdeistref Wrecsam, lluniwyd cynllun fyddai'n galluogi'r 20 awdurdod lleol yng Nghymru nad enillodd un o ddau grant mawr y cynllun 'Cymunedau'n Darllen', i gynnal ymgyrch ar gyfer eu trigolion, ac a fyddai'n ategu'r cynllun 'Cymunedau'n Darllen' yn gyffredinol. Darparwyd cyllid penodol o £10,000 ar gyfer y dasg gan y Flwyddyn Darllen Genedlaethol, sef £500 yr un, ac fe ategwyd y swm hwnnw gan £1,500 ar gyfer pob awdurdod gan ymgyrch farchnata Rhaglen Llyfrgelloedd am Oes CyMAL – ymgyrch 'Dyddiau Da'. Dan delerau'r ymgyrch gallai awdurdodau gyplysu eu gwaith ar yr her ddarllen flynyddol dros yr haf â'r ymgyrch hon, ond y bwriad oedd annog llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru i gyfranogi'n llawn o ymgyrch farchnata'r hydref trwy gynnal digwyddiad neu gyfres o ddiwyddiadau sylweddol rhwng Hydref a Thachwedd. Disgwylid i bob awdurdod:

- geisio cyrraedd cynulleidfaoedd newydd;
- hyrwyddo darllen fel gweithgaredd hamdden i'w fwynhau;
- roi'r pwyslais ar rannu galluoedd, sgiliau a phrofiadau mewn partneriaethau cryfach a newydd;
- werthuso'u gwaith, a chyflwyno adroddiad diwedd blwyddyn, a
- cheisio sicrhau y byddai gwaith cyffelyb yn cael ei gynnal yn y dyfodol, gan ddefnyddio profiad ymgyrch 2008 a'r modd yr adeiladwyd y gallu trefniannol ymhlith y gweithlu.

Bu'r ymateb yn frwdfrydig. Mabwysiadodd nifer o awdurdodau brif themâu'r Flwyddyn Darllen Genedlaethol, megis defnyddio chwaraeon fel cymhelliad i ddarllen, a defnyddio'r themâu misol a gyflwynwyd iddynt drwy gyfrwng gwefan y Flwyddyn Darllen. Cysylltodd rhai eu hymgyrch ag ymgyrch Faber yn Lloegr, tra bu eraill yn dewis llyfrau a themâu ac iddynt flas lleol. Rhoes eraill y pwyslais ar atgyfnerthu partneriaethau ym myd addysg a dysgu, megis trwy dargedu ysgolion neu trwy gyfrannu i gyrsiau hyfforddiant mewn swydd i athrawon. Dangoswyd cryn wreiddioldeb wrth gynnig ystod eang o anogaethau, a bu ymateb arbennig o frwdfrydig o gyfeiriad y cyhoedd i ddyddiau llawn o weithgareddau ynghlwm wrth ddarllen, llyfrau a geiriau, ac i gyfleoedd i gwrdd ag awduron a gwrando arnynt yn darllen ac yn trafod eu gwaith.

O fwrw golwg ar y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiadau diwedd blwyddyn, gellir canfod y canlynol:

- bu cyfraniad tîm cydlynu'r Cyngor Llyfrau yn bwysig o ran cynnal a hyrwyddo'r ymgyrch hon, ac yn ffactor bwysig yn ei llwyddiant;
- er bod cryn amrywiaeth yn y niferoedd a fynychodd y gwahanol fathau o ddigwyddiadau, fel y gellid disgwyl, bu ymateb y cyhoedd yn frwdfrydig a chyfrannodd y cynllun hwn yn sylweddol i'r ystadegau o gyfranogiad y cyfeiriwyd atynt eisoes. Aeth dros 300 o rieni a phlant ar gyrch i 'chwilio am eirth' mewn un awdurdod, sef rhaglen i hyrwyddo'r defnydd o storïau a geiriau ymhlith plant bach a'u rhieni a'u gofawyr, daeth 330 o blant o bob oed i sesiynau stori mewn ymgyrch gan awdurdod arall, a daeth 60 o blant hŷn i ddiwrnod o gwisiau yn seiliedig ar eu darllen a'u gallu i chwilio am wybodaeth, a dros 60 o bobl i wrando ar ambell awdur yn trafod eu gwaith mewn awdurdodau eraill. Bu dros 350 o rieni/gofawyr a phlant mewn digwyddiadau i hyrwyddo'r arfer o gyd-ddarllen, a chafwyd ymdrechion arbennig i ddangos bwysiced yw darllen i bob agwedd ar fywyd, gan gynnwys iechyd;
- cafodd y digwyddiadau ddylanwad da iawn ar batrymau defnydd mewn llyfrgelloedd cyhoeddus. Cafwyd enghreifftiau o gynnydd yn y benthyciadau o lyfrgelloedd oedd yn gysylltiedig â gweithgarwch – hyd at 5% o fewn mis – ac yn nifer y sawl oedd yn ymaelodi â'r gwasanaeth llyfrgell am y tro cyntaf – hyd at 400 mewn cyfnod byr o dair wythnos mewn rhai achosion – yn y cyfnod oedd yn cyfateb i'r rhaglen o weithgarwch dwys. Nododd sawl rhiant, na fuasent mewn llyfrgell gyhoeddus o'r blaen, fod yr arlwy wrth eu bodd ac y byddent yn dychwelyd, ac yr oedd yn fwriad gan lawer iawn o rieni i gofrestru'r plant fel darllenwyr a dychwelyd yn rheolaidd i'w llyfrgelloedd lleol;
- gwelwyd cynnydd sylweddol yn y nifer o blant oedd yn cychwyn ac yn gorffen y sialens ddarllen dros yr haf – mewn un achos cafwyd cynnydd o 19% yn y nifer a gofrestrodd i gychwyn y sialens, ac yr oedd y nifer a gwblhaodd y sialens 34% yn uwch – ac yr oedd nifer helaeth o'r ymgyrchoedd wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y plant oedd yn cwblhau'r sialens. Mewn un awdurdod yr oedd 40% o blant ysgol y sir wedi cofrestru ar y sialens ddarllen, a chan fod 68% o'r plant wedi cwblhau'r sialens, y mae'r sir yn ddegfed o ran llwyddiant drwy'r Deyrnas Unedig. Bu gosod y sialens haf o fewn cyd-destun ehangach, gyda'r cyhoedduswydd a'r gweithgareddau eraill a frandiwyd dan nawdd y Flwyddyn Darllen, yn amlwg yn bwysig;
- gyda chyllideb benodol, er mai bychan ydoedd, yr oedd yr arlwy yn fwy uchelgeisiol, yn fwy hyderus ac yn esgor ar well defnydd o bartneriaethau na'r arlwy a gynigid yn flaenorol. Ceir tystiolaeth am gydweithio agos ac effeithiol rhwng ystod eang iawn o sefydliadau a mudiadau, yr hen a'r ifanc, a rhwng y cenedlaethau;
- bu'r rhan fwyaf o'r digwyddiadau yn 'agoriad llygad' i'r cyfranogwyr mewn rhyw ffordd neu'i gilydd;
- cafwyd ymdrech gydwybodol i geisio sicrhau cydbwysedd yn iaith y digwyddiadau, ac yng nghefndiroedd yr awduron a'r gwesteion;

- mae tystiolaeth fod y digwyddiadau wedi rhychwantu ystod oedran sylweddol – o dair oed i 90 oed mewn un achos;
- ceir tystiolaeth fod nifer o'r oedolion fu yn y digwyddiadau trafod a darllen wedi cael eu sbarduno i drafod y grefft o ysgrifennu, eu gweithiau hwy eu hunain, a dysgu mwy am y broses o gael cyhoeddi eu gweithiau;
- cafodd y rhaglenni arbennig gyda defnyddwyr ag anghenion arbennig ac a gynhaliwyd mewn mannau arbennig, megis ysbytai, ganmoliaeth fawr;
- mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau eisoes wedi ymrwmo i gynnal digwyddiadau cyffelyb yn 2009. Y flwyddyn 2008 oedd y gyntaf pryd y trefnodd rhai ohonynt ddiwyddiadau uchelgeisiol, a rhoes y llwyddiant hwn hyder iddynt i gynllunio rhaglenni tebyg yn y dyfodol;
- bydd ganddynt brofiad newydd ac adborth gwerthfawr am y modd y dylid cynllunio eu rhaglenni gwaith yn y dyfodol, ac am sut a phryd y dylid cynnal digwyddiadau penodol. Mae hynny'n arbennig o wir wrth ystyried ymgyrchoedd ymhlith y cymunedau hynny a ddisgrifir fel y rhai anfoddog o ran eu harferion darllen, neu a fu'n draddodiadol anodd eu cyrraedd. Rhaid bod yn wreiddiol, rhaid derbyn cyngor arbenigol a rhaid dangos dyfalbarhad yn yr ymdrech. Nodwyd gan nifer o'r trefnwyr bod angen cyfnod sylweddol i drefnu gweithgareddau gyda sefydliadau eraill ac ar y cyd â phartneriaid, a bod angen amser i'w meithrin. Mae rhai digwyddiadau yn gweddu'n well i gyfnodau gwahanol ar y flwyddyn waith hefyd, a dylai pob awdurdod gael y cyfle i ymateb i'r anghenion, y cyfleoedd a'r amgylchiadau yn lleol.

Wrth bwysu a mesur y dystiolaeth a gasglwyd ar sail patrwm darpariaeth 2008 yr ymgyrch hon, gellir gweld fod rhoi canolbwynt i ymgyrch yn bwysig a bod cynnal rhaglen ddwys o weithgareddau i'w weld yn hynod lwyddiannus. Yn y dyfodol, gellir awgrymu y dylai'r cynllun 'Cymunedau'n Darllen' gael ei ymestyn i awdurdodau eraill, gydag o leiaf un ymgyrch sylweddol yn cael ei threfnu bob blwyddyn. Dylid cadw'r elfennau o gymorth a chyngor canolog a gafodd eu gwerthfawrogi gymaint yn 2008 (megis darparu themâu, cefnogaeth ym maes cysylltiadau cyhoeddus, ac yn y blaen). Dylid annog awdurdodau a fu'n rhan o'r brif ymgyrch i gynnal gweithgaredd tebyg yn y blynyddoedd dilynol wedi ei seilio ar fodel 'Cymunedau'n Darllen'. Cyfeirir at hyn ar ddiwedd yr Adroddiad hwn ymhlith yr argymhellion.

5.3 Cynllun Clybiau Darllen 08

O'r cychwyn fe sylweddolwyd mai'r cynllun hwn fyddai'r un fyddai'n cynnig y sialens fwyaf. Mae'n hysbys fod grwpiau darllen niferus ar gyfer oedolion yn bodoli yng Nghymru, a bod nifer o ymgyrchoedd llwyddiannus wedi'u cynnal ymhlith oedolion dros y blynyddoedd, megis ymgyrch Estyn Allan yn y cyfnod mwy diweddar. Ond fe osodwyd sialens arbennig gan y cynllun hwn oherwydd yr amcanion a'r nodau a fabwysiadwyd yn wreiddiol ar ei gyfer, sef:

- sefydlu 50 o glybiau fyddai'n gweithredu dan nawdd y cynllun, gyda deg aelod o leiaf ymhob clwb;

- targedu oedran blynyddoedd olaf ysgol gynradd a blynyddoedd cyntaf ysgol uwchradd, gan geisio denu bechgyn o fewn y rhychwant oedran hwnnw – cynulleidfa draddodiadol anodd. Y gobaith oedd y gellid cynnal nifer o'r clybiau hyn y tu allan i furiau ysgolion;
- datblygu thema yn seiliedig ar chwaraeon fel sail i brif weithgareddau'r clybiau;
- sefydlu clybiau Cymraeg a Saesneg;
- y clybiau i gyfarfod chwe gwaith o fewn y cynllun;
- sefydlu clybiau fyddai'n bosibl eu cynnal ar ôl y Flwyddyn Darllen Genedlaethol.

Bu'n rhaid adolygu a newid rhai o'r amcanion a'r cynlluniau gwreiddiol. Yn dilyn trafodaethau yn y Pwyllgor Llywio a sefydlwyd yn benodol ar gyfer y cynllun, gyda chydlynwyr cenedlaethol (Dafydd a Bethan Whittall), cytunwyd na ellid cychwyn y cynllun tan fis Medi 2008 er mwyn osgoi trosglwyddiad disgyblion rhwng un ysgol ac un arall.

Wrth gynllunio'r gweithgaredd, cytunwyd:

- y dylid rhoi pwyslais ar greu cyfleoedd i ddatblygu amrywiaeth o weithgareddau fyddai'n creu darllenwyr annibynnol eiddgar, a gorau oll pe byddai hynny ymhlith bechgyn a oedd ar y dechrau yn ddarllenwyr anfoddog;
- y dylid ceisio denu arweinwyr ar y clybiau oedd yn meddu ar gefndir a phrofiad gwaith gwahanol i'r athro iaith traddodiadol, gan sicrhau cyngor arbenigol gan Angela Bliszko, ContinYou, a oedd yn gyfrifol yn ei swydd am greu rhaglenni o weithgareddau y tu allan i oriau ysgol ar gyfer pobl ifanc. Trwy hynny, bu'n bosibl darparu canllawiau ac ystod o syniadau a thasgau fyddai'n addas ar gyfer y clybiau;

Darparwyd cyllideb fechan ar gyfer pob clwb, gydag aelodau'r grŵp yn dod i benderfyniad ar y modd y byddid yn gwario'r swm hwnnw – ar gynnal digwyddiad, ar wahodd awdur i'r clwb, neu ar gynnal taith i fan arbennig. Cynigiwyd pecyn o anrhegion hefyd ar gyfer pob clwb, i'w dosbarthu dros gyfnod y cynllun er mwyn ceisio cynnal chwilfrydedd a theyrngarwch ymhlith yr aelodau. Pwysleisiwyd pwysigrwydd profi a chyfrannu i adrannau safle'r Flwyddyn Darllen ar y we fel rhan o weithgareddau'r clybiau yn ogystal.

Rhodddwyd cryn bwyslais o'r cychwyn ar sefydlu peirianwaith trefnu addas ar gyfer cynllun Clybiau 08. Yn ddiamau fe fu'r sylw a'r cynllunio manwl hwnnw yn allweddol i lwyddiant y cynllun. Penodwyd cydlynwyr cenedlaethol ynghyd â chydlynwyr rhanbarthol ac yna arweinwyr y grwpiau, ac fe gynhaliwyd llinellau cyfathrebu cyson, pwrpasol ac effeithiol rhyngddynt. Mae hwn yn fodel sy'n werth ei gynnal a'i ddefnyddio ymhellach.

Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau tra diddorol – lanswyd ambell glwb gydag ymweliad â chlwb pêl-droed o'r prif gynghreiriau neu yng nghwmni arwr o fyd chwaraeon, neu wrth chwarae gemau, megis bowlïo deg. Mabwysiadodd yr aelodau enw ar eu clwb, ac mae gwreiddioldeb yr enwau hynny'n adlewyrchu'r asbri a berthynai i'w gwaith.

Cododd problem ymarferol wrth geisio dewis a dethol y llyfrau fyddai'n sail i weithgarwch y clybiau. Yn wreiddiol, y bwriad oedd rhoi rhyddid i bob clwb ddewis eu cyfrolau eu hunain, a bu hynny'n rhan o'r arferion da ymhlith y grwpiau llyfrau yn y gorffennol. Mae hynny fel arfer yn adlewyrchu diddordebau a dyheadau aelodau'r cylchoedd trafod hyn, ac yn esgor ar berchnogaeth ac annibyniaeth a theyrngarwch. Ond am fod y cynllun yn ceisio sicrhau gwasanaeth arweinwyr gwahanol i'r arfer, gyda rhai ohonynt yn arwain grwpiau am y tro cyntaf o bosibl, a bod cyfyngiadau amseryddol sylweddol ar y cynllun, derbyniwyd cyngor cydlynwyr Clybiau 08 y dylid cyflenwi'r llyfrau'n ganolog, a hwy hefyd a wnaeth y dewis terfynol o deitlau.

Wedi i'r egwyddorion sylfaenol a'r dulliau o weithredu gael eu cytuno, llwyddwyd i sefydlu 50 o glybiau a thros 500 o aelodau yn ddigon rhwydd. Mae hyn i'w briodoli i bwysigrwydd gwaith y cydlynwyr cenedlaethol, i lwyddiant gwaith y pum cydlynnydd rhanbarthol a benodwyd – yng ngogledd orllewin Cymru, yn y gogledd ddwyrain, yng Nghaerdydd a'r cyffiniau, yn Llanelli a'r cyffiniau ac yn ne orllewin Cymru – ac i sgiliau arweinwyr y Clybiau. Canfuwyd brwdfrydedd mawr mewn ysgolion, llyfrgelloedd a chlybiau ieuencid, goresgynnwyd nifer o broblemau ymarferol trwy ddefnyddio canolfannau ac unigolion cydnabyddedig, a llwyddodd yr ysgolion i greu awyrgylch anffurfiol ar gyfer llawer o weithgarwch y clybiau. Bydd y gweithgarwch arbennig hwn yn parhau ymlaen i fisoedd cynnar 2009 o leiaf, ac mae tystiolaeth yn awgrymu y bydd nifer dda o'r clybiau'n parhau yn y dyfodol gan iddynt fod yn gymaint o lwyddiant.

Ystyriwyd bod cynnal cyfarfodydd lled reolaidd rhwng y tîm o gydlynwyr cenedlaethol a rhanbarthol, a swyddogion y Flwyddyn Darllen Genedlaethol, wedi bod yn allweddol i lwyddiant y cynllun. Trwy gyfrwng y cyfarfodydd hyn bu'n bosibl rhannu cyfoeth o wybodaeth a phrofiad, a chreu a datblygu syniadau newydd. Daeth yn amlwg ei bod yn haws cynnal gweithgareddau ymestyn i ategu'r drafodaeth ar lyfrau chwaraeon pan oedd arwyr y byd chwaraeon wrth law – fel arfer yn ne Cymru. Ond fe gafwyd diddordeb a chefnogaeth o gyfeiriad y cyfryngau, y byd cyhoeddus a rhaglenni teledu plant ar draws Cymru gyfan. Canmolwyd cyfraniad Cyngor Llyfrau Cymru yn ogystal wrth i'r swyddogion estyn cymorth sylweddol wrth ddarparu llyfrau i'w trafod, wrth ddosbarthu defnyddiau a pheccynnau ysgogi a chynnal gwefan y Flwyddyn oedd, yn naturiol, yn denu sylw pobl ifanc. Yr oedd y trefniadau marchnata yn effeithiol yn ogystal.

Cafwyd adborth sylweddol gan arweinwyr y clybiau, ac mae rhai nodau cyson yn cael eu taro sy'n dra defnyddiol ar gyfer y dyfodol:

- llwyddodd y cynllun i gyrraedd y targed o 50 Clwb, gydag o leiaf 10 aelod, a osodwyd ar ei gyfer hyd yn oed o fewn cyfyngiadau amser y Flwyddyn Darllen. Yr oedd y Cydlynwyr yn mynegi'r farn y gellid sefydlu cant a mwy o glybiau yn ebrwydd dros Gymru yn y dyfodol o gael amser i'w trefnu a'r adnoddau i'w hyrwyddo a'u datblygu;
- bu sefydlu clybiau a denu aelodau yn waith cymharol hawdd o fewn ysgolion, yn arbennig gan fod ysgogiad ymarferol wedi'i gynnig i'r arweinwyr a'r aelodau. Profodd y syniad o gynnig anrhegion i'r plant yn un arbennig o boblogaidd ac effeithiol;
- ni chafwyd unrhyw drafferth cael cydbwysedd rhwng clybiau Cymraeg a Saesneg eu hiaith, ac fe ddefnyddiodd rhai ysgolion y clybiau fel dulliau o loywi ail iaith – yr iaith Saesneg mewn ardaloedd cynhenid Gymraeg;

- yr oedd rhai ysgolion braidd yn genfigennus na ellid bod wedi ymestyn y cynllun i'w hysgolion hwythau, ac yr oedd peth eiddigedd cyfeillgar hefyd rhwng disgyblion ar sail aelodaeth y clybiau;
- sicrhawyd bod o leiaf hanner aelodau'r clybiau yn fechgyn, ac weithiau yr oedd y cyfartaledd o fechgyn yn llawer iawn uwch;
- mae'r syniad o gynnal gweithgareddau atodol yn allweddol bwysig i lwyddiant clybiau darllen ymhlith pobl ifanc. Ond nid oedd pob clwb wedi medru ymateb i'r digwyddiadau a'r cystadlaethau cysylltiedig i gyd oherwydd prinder amser. Rhywbeth fyddai'n tyfu gydag amser fyddai rhaglen lawn o weithgaredd, ac ym marn rhai arweinwyr byddai hynny'n ddigon o reswm i gynnal y cynllun i'r dyfodol;
- mae'n ymddangos fod nifer y bobl ifanc oedd yn darllen y llyfrau a ddefnyddiwyd gan y clybiau yn uwch na'r nifer oedd yn aelodau ffurfiol o glybiau, gan fod benthg llyfrau rhwng cyfeillion a chymheiriaid wedi tyfu'n elfen bwysig yn y patrwm;
- o fewn ysgolion mae'n rhaid i'r clybiau frwydro yn erbyn nifer o weithgareddau eraill, ac yn erbyn cyfyngiadau'r amserlen ysgol. Mae hynny'n gallu amharu ar deyrngarwch a phresenoldeb ar brydiau, a rhaid talu sylw i agweddau megis lleoliad ac amseriad. Er hynny, yr oedd cyfartaledd y presenoldeb yn y mwyafrif llethol o'r clybiau a sefydlwyd gan y cynllun hwn yn uchel iawn. Ond yn yr achosion hynny lle'r oedd aelodau'r clwb yn unigolion oedd ag anghenion arbennig neu'n ddarllenwyr anfoddog, yr oedd y presenoldeb yn gallu dioddef, a rhaid fyddai dibynnu ar gyngor arbenigol mewn achosion o'r fath yn y dyfodol;
- Profodd y strwythur rheoli yn un effeithiol a llwyddiannus, a gellid dadlau'n gryf fod y strwythur a sefydlwyd yn gwbl addas ar gyfer ehangu'r cynllun yn y dyfodol pe gellid cael adnoddau. Roedd teimlad cryf ymhlith y cydlynwyr, yr ymatebwyr a'r cyfranogwyr y dylid ceisio cynnal y cynllun hwn a'i ddatblygu, gan fod y syniad o gynnal gweithgaredd yn seiliedig ar thema wedi cynnig posibiliadau di-rif ar gyfer y dyfodol, a gellid trwy hynny ymateb yn briodol i sefyllfa ac amgylchiadau lleol. Trwy wneud hynny, yr oedd arweinyddion rhai clybiau yn nodi y byddai mantais yn y dyfodol pryd y byddent yn gallu dewis eu llyfrau eu hunain, a gwneud dewisiadau fyddai'n gyfaddas â'r anghenion. Awgrymodd eraill pe na byddai'r cynllun yn parhau yn ei grynsyth, y dylid ceisio cynnal y darnau perthnasol ar wefan y Flwyddyn Darllen er mwyn ategu'r ymdrechion lleol i gynnal y clwb;
- roedd y safle ar y we, a'r blogiau, yn arbennig o ddefnyddiol a phoblogaidd;
- ni fydd canlyniad y gwaith gyda darllenwyr llai brwd i'w ganfod am beth amser, ond mae'r arwyddion cynnar mewn sawl achos yn galonogol iawn. Gallai nifer o arweinwyr gyfeirio at unigolion oedd wedi troi'r gornel o safbwynt darllen yn dilyn gwaith y clwb, ac at agwedd well tuag at lyfrau a darllen ymhlith nifer sylweddol o blant. Hyd yn oed pan na ellir canfod mwy o ddarllen naturiol, mae'n bosibl canfod mwy o ddiddordeb mewn llyfrau a'u testunau, a mwy o barodrydd i drafod llyfrau ar lafar.

Ond adborth aelodau clybiau 08 yw'r adborth pwysicaf o ddigon. Fe'u hanogwyd i fynegi barn a safbwyntiau ar ffurf blogiau ar wefan y Flwyddyn Darllen Genedlaethol a gwnaethant hynny'n ffraeth ac yn gyson. Profodd y cyfuniad o ddarllen a gwaith

technolegol yn un llwyddiannus iawn gan ei fod yn adlewyrchu parodrwydd aelodau'r clybiau i ddweud eu dweud am eu darllen ac i fynegi eu boddhad ar y blogiau, ac yna ddatblygu sgiliau llafar a beirniadol am yr arlwy mewn proses naturiol o ddatblygu sgiliau.

6. Partneriaethau a chysylltiadau newydd

6.1 Adeiladu ar seiliau

Anodd iawn fyddai i dîm bychan o gydlynwyr canolog drefnu ymgyrch genedlaethol heb gefnogaeth nifer dda o bartneriaid, ac roedd hyn yn arbennig o wir yn achos y Flwyddyn Darllen Genedlaethol yn 2008. Fe osodwyd y dasg serch hynny i weithio ar sail partneriaethau – adeiladu ar y rhai a fodolai eisoes a chreu partneriaethau newydd. Mae'r dystiolaeth yn dangos fod y Flwyddyn Darllen wedi llwyddo yn y cyfeiriadau hynny hefyd.

Cafwyd cefnogaeth i'r Flwyddyn oddi wrth amryw o bartneriaid fu eisoes yn weithredol gydag ymgyrchoedd megis Diwrnod y Llyfr a Stori Sydyn, a bu'r cydweithio gyda'r partneriaid hyn o fudd mawr i'r Flwyddyn. Yn amlwg, roedd awdurdodau lleol ymhlith y partneriaid hyn, fel y nodwyd eisoes yn yr Adroddiad hwn, a bu cyfraniad y cydlynwyr a enwebwyd ganddynt yn un hynod o bwysig wrth iddynt hwythau sicrhau ystod eang o weithgaredd ym mhob sir i hybu amcanion a nodau'r Flwyddyn.

Bu ysgolion Cymru, cylchoedd meithrin y Mudiad Ysgolion Meithrin a chylchoedd chwarae Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru ymhlith partneriaid creiddiol nifer o gynlluniau ac ymgyrchoedd y Cyngor Llyfrau. Anfonwyd pecynnau o adnoddau arbennig atynt er mwyn eu hannog i gefnogi'r Flwyddyn Darllen a chafwyd adborth oddi wrth nifer dda ohonynt yn amlinellu'r gweithgareddau a drefnwyd ganddynt.

Mae TUC Cymru yn un o bartneriaid mwy diweddar Diwrnod y Llyfr a bu'r Flwyddyn Darllen yn gyfle i ehangu a dyfnhau'r bartneriaeth hon, gan roi cyfle i neges y Flwyddyn am bwysigrwydd darllen fel un o'r prif sgiliau byw gyrraedd cyfran sylweddol o'r gweithlu. Mae TUC Cymru yn cynrychioli bron i hanner miliwn o weithwyr ac mae ganddynt 1,200 o gynrychiolwyr undeb sy'n gweithio i wella sgiliau eu cydweithwyr.

Trefnodd swyddogion adran gwasanaethau dysgu TUC Cymru ddwy seminar ar y cyd er mwyn rhannu arfer da'r undebwyr am ffyrdd o ysgogi gweithwyr i droi at ddarllen er mwyn gwella'u sgiliau sylfaenol. A chafwyd cyfle pellach i roi sylw i'r Flwyddyn a'i hamcanion, ac i'r digwyddiadau a'r gweithgaredd oedd wedi eu trefnu mewn gweithleoedd ar hyd a lled Cymru er mwyn cefnogi'r Flwyddyn, yng nghynhadledd flynyddol y cynrychiolwyr dysgu. Derbyniwyd tystiolaeth bendant o nifer dda o weithleoedd eu bod wedi defnyddio'r Flwyddyn i godi proffil llyfrau a darllen ymhlith eu cydweithwyr ac y bydd llawer o'r gweithgaredd hwn yn parhau i'r dyfodol.

Mae'r bartneriaeth gydag adran gwasanaethau dysgu TUC Cymru yn un sydd wedi dyfnhau yn ystod y Flwyddyn Darllen a gwelir ei pharhad eisoes yng nghyd-destun Diwrnod y Llyfr 2009 a gweithgaredd Stori Sydyn.

Trwy fudiadau fel yr Urdd a Merched y Wawr, sydd wedi cydweithio â'r Cyngor Llyfrau ar nifer o ymgyrchoedd dros y blynyddoedd, cafwyd cyfle i godi ymwybyddiaeth o'r Flwyddyn ar lwyfan prifwyl yr Urdd, pryd y cafodd pob enillydd ar y cystadlaethau llwyfan docyn llyfr arbennig i nodi'r Flwyddyn, ac mewn mwy nag un o ddiwyddiadau

cededlaethol Merched y Wawr. Cafwyd sylw pellach yng nghylchgronau'r Urdd ac roedd Merched y Wawr yn un o'r sefydliadau a fu'n rhan o ymgyrch Wythnos Llyfr yn Anrheg gan iddynt gydweithio gyda Gwasg Honno i roi llyfrau i elusen Cymorth i Fenywod Cymru. Cafwyd cefnogaeth nifer o elusennau Cymru hefyd i ymgyrch Wythnos Llyfr yn Anrheg wrth iddynt arddangos posteri hyrwyddo yn ffenestri eu siopau mewn trefi ar hyd a lled Cymru.

Mae Rhwydwaith Fideo Cymru ymysg un o'r rhwydweithiau mwyaf soffistigedig yn y byd, ac mae eu gwaith yn cynnwys dosbarthu a chefnogi stiwdios fideo-gynadledda a chyfleusterau fideo eraill i bob sefydliad addysg bellach ac addysg uwch ledled Cymru. Bu Rhwydwaith Fideo Cymru yn un o bartneriaid Diwrnod y Llyfr ers rhai blynyddoedd ac roedd yn naturiol felly iddynt drefnu sesiynau yn ystod y Flwyddyn Darllen a oedd yn dwyn awduron a phobl ifanc ynghyd mewn fideogynadleddau. Fel mae'n digwydd, un o ddiwyddiadau'r Rhwydwaith oedd digwyddiad rhif 2,008 y Flwyddyn, a'r un a wnaeth sicrhau cyrraedd y targed a osodwyd ar gyfer y Flwyddyn o ran nifer y digwyddiadau. Roedd y digwyddiad hwnnw yn ffrwyth partneriaeth bellach – rhwng y Rhwydwaith a Fforwm Llyfrgelloedd Addysg Uwch Cymru.

6.2 Partneriaethau newydd

Cafwyd cefnogaeth i'r Flwyddyn hefyd oddi wrth amryw o bartneriaid newydd sbon gan gynnwys busnesau ac elusennau. Un o'r busnesau fu'n frwd ei gefnogaeth oedd cwmni dur Corus sy'n cyflogi dros 8,000 o bobl ledled Cymru. Gwelodd rhai o swyddogion y cwmni bod y Flwyddyn Darllen yn cynnig cyfle i drefnu gweithgaredd ar gyfer eu gweithlu a fyddai nid yn unig yn hybu darllen fel gweithgaredd amser hamdden, ond hefyd yn gyfraniad i'w partneriaeth gyda'r Undebau i gynyddu sgiliau eu gweithlu ac yn wir yn cyfrannu at ymdrechion y cwmni i gwrdd â'u cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol. Gyda chefnogaeth Accent Press, dosbarthwyd tua 1,500 o lyfrau yn rhad ac am ddim i weithwyr Corus, a thrwy hyn cafwyd cyfle i fynd â'r neges am bwysigrwydd y sgiliau a geir drwy ddarllen, boed hynny er pleser neu at ddibenion busnes, i gynulleidfa newydd.

Sefydlwyd partneriaeth newydd yn dilyn ymholiad oddi wrth gyfarwyddwr gweithgaredd Llamau, elusen gofrestrdig sy'n darparu ystod o wasanaethau ar gyfer pobl ifanc a gwragedd dan anfantais a digartref yn ne Cymru. Roedd yr elusen yn awyddus i fod yn rhan o'r Flwyddyn Darllen ac yn chwilio am syniadau y gellid eu gweithredu gyda'r bobl ifanc o dan ei gofal. Darparwyd set o lyfrau Stori Sydyn/Quick Reads ar eu cyfer ac fe drefnwyd gweithdy ar gyfer holl ddefnyddwyr gwasanaethau Llamau yn y deg awdurdod lleol y mae'n eu gwasanaethu.

Derbyniwyd adroddiad byr ar y gweithdy a oedd yn nodi:

- mai pobl ifanc rhwng 16 ac 18 oed fu'n cymryd rhan;
- bod mwy o fechgyn nag o ferched yn rhan o'r gweithgaredd;
- doedd gan nifer fach ddim diddordeb o gwbl yn y llyfrau ond fe gymerodd llawer ddiddordeb mawr ynddyn nhw;
- ysgogodd y llyfrau drafodaeth am werth storïau a llyfrau'n gyffredinol;

- roedd y ffaith fod peth o'r gweithgaredd gyda'r llyfrau wedi bod yn sesiynau grŵp wedi rhoi mwy o hyder i'r bobl ifanc i feddwl am eu teimladau, eu meddyliau a'u galluoedd darllen eu hunain;
- teimlai y staff fod y gweithgaredd wedi bod yn gyfle gwerthfawr i drafod materion pwysig mewn ffordd oedd yn gymorth ac yn gynhaliol;
- fod y sesiwn wedi gwneud i ddarllen ymddangos fel rhan naturiol o fywyd yn hytrach na 'chosb' ysgol.

Mae cyfoeth o dystiolaeth i werth y profiad a gafodd y bobl ifanc trwy'r gweithdy hwn:

'Cefais fy mhlesio am fy mod wedi gwneud yn dda wrth ddarllen yn uchel gyda D (aelod o staff). Caf drafferth wrth ddarllen yn aml ac roedd darllen yn uchel yn yr ysgol yn rhoi atal dweud i mi am nad oeddwn yn gallu darllen yn dda.'

'Roeddwn yn teimlo'n well wrth ddarllen yn uchel fel bod rhywun yn gallu gwrandao arna i, ac mae hynny'n help i mi ganolbwyntio a dysgu.'
'Roeddwn yn hoffi'r llyfr am fod y print yn eithaf bras. Alla i ddim darllen print mân. Yr oedd y tudalen yn glir ac es i ddim ar goll. Dwi'n gwybod y bydd yn rhaid i mi wella safon fy narllen er mwyn helpu fy mab ar ôl iddo gael ei eni. Dydw i ddim yn medru darllen yn dda ar hyn o bryd.'

'Yr oedd yn iawn. Yr oedd rhai o'r geiriau yn rhai cymhleth am nad ydw i'n dda yn darllen. Fyddwn i erioed wedi codi llyfr o'r fath petaech chi ddim wedi dod ag e i mi. Yr oedd yn dda ond fe hoffwn gael mwy o storïau byrion.'

'Fe hoffais ddarllen y llyfr i gyd am ei fod yn ddigon byr i wneud i mi feddwl y byddwn yn gallu ei orffen.'

Yn dilyn llwyddiant y gweithdy a gynhaliwyd yn ystod y Flwyddyn Darllen, mae'r elusen bellach wedi trefnu gweithgaredd pellach ar gais y bobl ifanc. Yn sicr, bydd cyfle i feithrin y bartneriaeth hon yng nghyd-destun Diwrnod y Llyfr a llyfrau Stori Sydyn/Quick Reads yn y dyfodol.

Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb dros Blant Sy'n Derbyn Gofal. Plant yw'r rhain na all eu rhieni gwaed ofalu amdanynt, naill ai dros dro neu'n barhaol. Bydd rhai o'r plant yn derbyn gofal gan aelodau eraill o'u teulu, eraill gan rieni neu ofalwyr maeth ac eraill mewn cartrefi gofal. Bydd llawer o'r plant wedi eu heffeithio gan brofiadau anodd a niweidiol gan gynnwys camdriniaeth gorfforol a rhywiol. Bydd gan rai anabledau ac anghenion cymhleth a bydd canran fechan iawn mewn gofal am eu bod wedi troseddu.

Mae gan bob awdurdod lleol yng Nghymru gydlynnydd sy'n gyfrifol am gynlluniau addysg ac anghenion addysgol y Plant Sy'n Derbyn Gofal a'r rhai sydd ar fin gadael gofal. Gan fod cydlynwyr y Plant Sy'n Derbyn Gofal yn gweithio i hybu cyrhaeddiad a chyflawniad addysgol y plant, mae gwella'u llythrennedd yn elfen bwysig o'u gwaith. Roedd yn arbennig o addas felly bod Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi £5,000 i bob un o'r cydlynwyr i'w wario'n benodol ar yr agwedd hon yn ystod y Flwyddyn Darllen Genedlaethol.

Hyd yn hyn, derbyniwyd adborth oddi wrth saith awdurdod ac maent yn cofnodi amrywiaeth o weithgareddau a chynlluniau:

- prynu llyfrau i gychwyn llyfrgell mewn cartref gofal;
- prynu ffuglen ar gyfer ysgol uwchradd benodol er mwyn datblygu sgiliau darllen y Plant Sy'n Derbyn Gofal sy'n ddisgyblion yno;
- trefnu Cystadleuaeth Llythrennedd Haf ar gyfer plant a'u gofalywr;
- prynu adnoddau 'llythrennedd emosiynol' i'w defnyddio mewn ysgolion ar gyfer gwaith gyda phlant unigol;
- creu arweiniad ar ddatblygiad darllen plant ar gyfer rhieni maeth, i'w ddsbarthu trwy ysgolion;
- defnyddio tocynnau llyfrau'n wobrau i gydnabod cynnydd mewn sgiliau darllen;
- darparu blychau o lyfrau ar gyfer tiwtoriaid arbenigol yr awdurdod;
- trefnu ffair lyfrau mewn cydweithrediad â'r awdurdod llyfrgell a siop lyfrau leol, gyda dewis addas o lyfrau gan gynnwys llyfrau ar gyfer darllenwyr anfoddog a llyfrau addas ar gyfer plant â lefel darllen isel. Cafodd pob plentyn docyn llyfr hael i'w wario yn y ffair. Ychwanegwyd at fwrlwm y diwrnod trwy sesiynau stori a sesiwn awdur;
- trefnu ymweliad ar gyfer criw o blant i siop lyfrau a hynny yng nghwmni aelodau o dîm rygbi Gleision Caerdydd er mwyn annog y plant i ddarllen;
- ymuno â chynllun 'Letterbox';
- trefnu sesiynau celf, llên a drama ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 i'w paratoi ar gyfer cyfnod trosglwyddo i'r uwchradd;
- sefydlu Cynllun Darllen Hapus i annog darllen mewn cartrefi maeth.

Trwy'r grant yma ar gyfer gwaith gyda Phlant Sy'n Derbyn Gofal, daeth cyfle arbennig i wneud y Flwyddyn Darllen yn fwy cynhwysol ac mae trefniadau ar y gweill eisoes i anfon pecynnau Diwrnod y Llyfr 2009 at gydlynwyr yr awdurdodau lleol yng Nghymru.

Dengys y dystiolaeth hon fod y Flwyddyn Darllen wedi ymaflyd o ddifrif ac yn llwyddiannus â sialens cymunedau anodd eu cyrraedd o safbwynt eu cynhwysiad a'u harferion darllen, a dylid adeiladu ar y profiad hwnnw yn ddiymdroi.

7. Yr ymgyrch gyhoeddusrwydd

Yr oedd elfennau allweddol yn perthyn i'r agwedd hon ar y Flwyddyn Darllen Genedlaethol:

- **sicrhau fod delwedd a brand y Flwyddyn yn amlwg ac yn tyfu'n gynyddol gyfarwydd**

Y nod oedd ceisio sicrhau fod pob gweithgarwch perthnasol a phob adnodd a defnydd a gynhyrchwyd ar ei chyfer neu a ddeilliodd ohoni yn dwyn logo a diwyg y Flwyddyn. I'r pwrpas hwnnw ceisiwyd hoelio'r sylw ar y dasg drwy ofyn i bob trefnydd, hyrwyddwr a chydlynnydd sicrhau fod pob eitem yn cael ei chofnodi. Cynhyrchwyd ystod eang iawn o ddefnyddiau amrywiol – yn falŵns, yn bosteri, yn sticeri, yn fandiau chwys a chrysau-T, gan ychwanegu cardiau post, dalen nodau, tocynnau llyfrau a bagiau chwaraeon a pheli troed. Dosbarthwyd ymron i 70,000 o eitemau o'r fath mewn cyfnodau arbennig yn ystod yr ymgyrch. At y cyfanswm hwnnw rhaid ychwanegu dros filiwn a hanner o eitemau yn dwyn logo a brand y Flwyddyn a luniwyd ac a ddosbarthwyd gan y cydlynwyr lleol yn ystod eu gweithgareddau a'u digwyddiadau hwy yn lleol;

- **lledaenu'r neges mewn cynadleddau a digwyddiadau cenedlaethol**

Drwy hysbysebu'r Flwyddyn mewn digwyddiadau o bwys, megis yr Eisteddfod Genedlaethol, cyfarfod blynyddol a gŵyl haf neu Fai Merched y Wawr, y Sioe Amaethyddol Frenhinol, Gŵyl y Gelli ac yn y blaen, cyrhaeddwyd cynulleidfa botensial o dros hanner miliwn o bobl, a thrwy ychwanegu hysbysrwydd Nadolig Cyngor Llyfrau Cymru ar S4C, yr oedd y gynulleidfa honno yn codi i fwy na 1,400,000 o bobl;

- **sicrhau fod y Flwyddyn yn cael y sylw mwyaf posibl yn y wasg ac ar y cyfryngau, a bod y sylw hwnnw'n adeiladol, yn gyson a chreadigol drwy'r flwyddyn, ac yn canolbwyntio ar godi proffil darllen a llyfrau drwy'r cyfryngau**

Yr oedd hon yn dasg oedd yn gofyn am wasanaethau ac adnoddau arbenigol ac fe gomisiynwyd cwmni cysylltiadau cyhoeddus FBA o Aberystwyth i gyflawni ystod o dasgau yn y maes gan gynnwys cydlynu holl waith y wasg ar ran y Cyngor Llyfrau.

Mewn adroddiad ar ddiwedd y flwyddyn, medrai'r cwmni gyfrifo (trwy ddulliau cydnabyddedig arferol cyfrifo'r maes cysylltiadau cyhoeddus):

- fod 121 o erthyglau a chyfraniadau nodwedd newyddiadurol wedi'u gosod ar y cyfryngau oedd yn cyrraedd cynulleidfa botensial o 8.5 miliwn o ddarllenwyr yng Nghymru;
- bod gwerth y cysylltiadau cyhoeddus a grëwyd yn £467,303;
- eu bod wedi darparu adnoddau ar gyfer 33 o gyfweiliadau radio a theledu oedd yn cyrraedd cynulleidfa botensial o 5.4 miliwn o bobl, a bod 53 o erthyglau ac eitemau nodwedd wedi'u darparu ar gyfer y Rhyngwlad. Cafwyd sylw yn y wasg yn genedlaethol ac yn lleol, yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Bu'r cwmni hefyd yn cydweithio â threfnwyr ymgyrchoedd a digwyddiadau lleol, ac yn cynghori ar y dulliau mwyaf effeithiol o drefnu digwyddiadau a denu sylw'r wasg a'r cyfryngau. Y cwmni hwn fu'n gyfrifol am lywio datblygiad a chynnwys y wefan ar gyfer y Flwyddyn Darllen hefyd.

Medrodd y cwmni gyrraedd pob un o'r targedau a osodwyd ar ei gyfer.

8. Gwefan y Flwyddyn Darllen Genedlaethol

Yr oedd Pwyllgor Llywio'r Flwyddyn Darllen yng Nghymru o'r farn o'r cychwyn y byddai creu gwefan ar ei chyfer yn ddatblygiad cwbl angenrheidiol a phwysig. Darparwyd adnoddau ariannol ychwanegol at y gwaith.

Yr oedd hon yn dasg anodd i'w chyflawni o fewn gofynion prosesau pwrcasu a chyfyngiadau amseryddol y Flwyddyn, ac fe chwiliwyd am y dulliau fyddai'n sicrhau gwefan cyn gynted ag y byddai modd er mwyn gallu ei chynnig i'r rhai oedd yn cyfrannu i weithgarwch y Flwyddyn. Chwiliwyd am gartref iddi o fewn systemau perthynol ac addas oedd yn bodoli eisoes, ond ni chafwyd ateb parod na derbyniol, ac felly comisiynwyd cwmni FBA, oedd wedi ennill contract hysbysrwydd a chysylltiadau cyhoeddus y Flwyddyn, i weinyddu'r gwaith o greu a chomisiynu'r wefan.

Cafwyd gwefan dros-dro weithredol erbyn Mawrth 2008 er mwyn prynu amser i gwblhau gwefan gwbl addas, ac er nad oedd yn wefan gwbl ryngweithiol yn y cyflwr hwnnw, yr oedd yn ddigonol ar gyfer cofrestru gweithgaredd a hwyluso cyfathrebu'n gyffredinol. Daeth y system lawn a rhyngweithiol yn fyw erbyn mis Mehefin, ac fe brofwyd ei gwerth fel:

- cyfrwng a allai reoli gwybodaeth, ei chasglu, ei dadansoddi a'i thaenu;
- cyfrwng a allai hybu a hyrwyddo amcanion a dibenion y Flwyddyn, ac ysbarduno cyfranogiad trwy gynnis syniadau a themâu priodol a chynnig deunydd ategol ac atodol, ac;
- fel cyfrwng fyddai'n ategu gweithgareddau'r tair ymgyrch fwyaf, Wythnos Llyfr yn Anrheg, Cymunedau'n Darllen a Chlybiau Darllen 08, mewn dulliau arbennig.

Cyfeiriwyd atynt uchod wrth ystyried llwyddiant y gweithgareddau hynny.

Rhwng dechrau Mai a diwedd Rhagfyr 2008 yr oedd ymron i 800,000 o drawiadau neu 'ymweliadau', o wahanol fathau, wedi'u cofnodi, ac yr oedd yr ymweliadau yn parhau ar gyfradd o tua 2,500 yr wythnos yn ystod Rhagfyr 2008.

Er bod llawer iawn o gyfraniad y wefan yn gysylltiedig â gweithgaredd penodol y Flwyddyn yn 2008, gellid dod i gasgliadau pendant ynglŷn â gwerth cyfrwng rhyngweithiol ac atodol o'r fath. Mae i ddefnyddio technoleg y we ei rinweddau arbennig fyddai'n apelio at waith gyda phlant a phobl ifanc; mae'n ddull effeithiol a hwylus o gyfathrebu'n rhad ac yn rhwydd, ac mae'n effeithiol wrth reoli. Ond mae'r Flwyddyn wedi dangos fod angen dethol a dewis yn ofalus pa ddefnydd y dylid ei wneud o wefan, a pha gynulleidfa oedd a ddylai gael eu targedu ar gyfer rhyngweithio â gwefan.

Bydd y wefan yn cael ei harchifo gan fod cymaint o wybodaeth bwysig arni, a da deall hefyd fod Cyngor Llyfrau Cymru yn bwriadu trosglwyddo rhai o swyddogaethau a nodweddion gwefan y Flwyddyn Darllen Genedlaethol i'w wefan ganolog er mwyn eu cynnal a'u datblygu ymhellach. Y mae'n bwysig iawn, serch hynny, sicrhau fod adnoddau ariannol addas yn cael eu darparu er mwyn sicrhau bod y trosglwyddiad hwnnw'n digwydd yn llwyddiannus, a bod yr adrannau hynny o'r wefan yn parhau'n hyfyw, yn hygyr ac yn ddiendol.

9. Ystyried yr agweddau gwerth am arian

Mae nifer o ystyriaethau sy'n berthnasol i'r gwerthusiad o'r agwedd hon ar Flwyddyn Darllen Genedlaethol 2008 a'r modd y gweinyddwyd hi:

- cyflawnwyd mwy na'r nod gwreiddiol o ddigwyddiadau;
- cadwyd holl waith y Flwyddyn o fewn y gwariant arfaethedig, a defnyddiwyd systemau rheoli ac adrodd ariannol oedd yn gyson a dibynadwy;
- cyflawnwyd y cynlluniau penodol yn ôl y cytundeb gwreiddiol rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru;
- wrth gynnal perthynas glòs gyda threfnwyr yr ymgyrchoedd arbennig a chynnig cymorth cyson pan oedd angen hynny, rheolwyd a diddymwyd unrhyw risg fyddai wedi gallu amharu ar lwyddiant yr ymgyrchoedd hynny;
- trwy gydweithio â phartneriaid, yn arbennig yr awdurdodau lleol, cafwyd cefnogaeth ymarferol gyfoethog o'r cyfeiriad hwnnw mewn amser a chyfraniadau o bob math, er nad oedd yn ddymuniad gan y partneriaid i'w brisio na'i hawlio'n ôl;
- yr oedd y gyfran o'r cyfanswm o arian a neilltuwyd ar gyfer yr agweddau gweinyddol ar y Flwyddyn yn gyfran resymol – ychydig dan 17% o gyfanswm yr arian a neilltuwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer y Flwyddyn Darllen. Gwariwyd y gyfran helaethaf o ddigon yn uniongyrchol ar gynnal y prif gynlluniau. Rhaid cofio bod cyfran o'r arian a neilltuwyd ar gyfer gweinyddiaeth wedi ei wario ar hyrwyddo a hwyluso'r rhaglen benodol o ddigwyddiadau a'r ymgyrchoedd, gan i'r tîm bychan o fewn Cyngor Llyfrau Cymru fod yn uniongyrchol weithredol yn y rhain;
- rhoes Cyngor Llyfrau Cymru gymorth ymarferol ac adnoddau staff ychwanegol at waith y Flwyddyn o'i adnoddau'i hun pan oedd angen hynny, heb eu prisio na'u mynnu'n ôl;
- gwariwyd arian yn ddoeth ar sicrhau arbenigeddau a gwasanaethau atodol nad oedd ar gael o fewn adnoddau'r Cyngor Llyfrau a thîm y Flwyddyn Darllen. Comisiynwyd y gwaith ar yr ymgyrchoedd penodol a nifer o'r agweddau eraill trwy ddulliau pwrcau cystadleuol oedd yn sicrhau gwerth am arian;
- llwyddwyd i ddenu arian a chefnogaeth ychwanegol ar gyfer rhai agweddau ar raglen weithgareddau'r Flwyddyn, yn arbennig wrth weithio ar sail partneriaethau. Gellir dynodi gwir werth peth ohono, megis cyfraniad CyMAL, ond byddai cyfanswm y cyfraniadau eraill yn sylweddol pe byddid yn eu prisio i gyd;
- mae lefelau cyfranogiad yn y digwyddiadau, a lled a chyrhaeddiad yr ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, yn arbennig o foddhaol ac yn sicr ni ellid bod wedi cael gwell gwerth am arian yn yr agweddau hynny trwy ffyrdd eraill.
- ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth fod cyfrannu i'r Flwyddyn wedi bod yn dreth ar unrhyw bartner nac unrhyw sefydliad, na bod y gwaith ar y Flwyddyn wedi dadleoli nac amharu ar unrhyw waith a ystyrir yn greiddiol mewn unrhyw sefydliad neu wasanaeth. Yn hytrach, gellir canfod fod cyfranogi o waith y Flwyddyn wedi dwyn budd a mantais;

Gellir casglu felly fod yr ymgyrchoedd a gynhaliwyd dan faner y Flwyddyn Darllen Genedlaethol yn 2008 yn dangos sut y mae swm cymharol fychan o arian yn medru gwneud gwahaniaeth sylweddol ac yn medru ennyn diddordeb ac ymateb boddhaol iawn.

10. Gwaddol y Flwyddyn Darllen Genedlaethol

10.1 Cynaliadwyedd

Cyfeiriwyd eisoes at y ffaith fod y cyrff oedd y tu cefn i'r ymgyrch i gynnal Blwyddyn Darllen Genedlaethol yn 2008, a'r Pwyllgor Llywio a roes gyfeiriad cychwynnol iddi, wedi nodi bod cynaliadwyedd yn agwedd bwysig i'w hystyried.

Fel y cyfryw gellir ystyried bod gwaddol y Flwyddyn yn un ymarferol ac yn un sylweddol:

- rhaglen o weithgarwch eang a diddorol a dderbyniodd groeso brwd gan gyfranogwyr o bob math, ac a ddarparodd ddifyrrwch, mwyniant, pleser a boddhad. Cyfoethogwyd bywydau llawer gan waith y Flwyddyn yn 2008;
- ar sail llwyddiant yr ymgyrchoedd a'r hyn a ddysgwyd wrth eu trefnu, gellir cynnal gweithgaredd cyffelyb yn gyson ac yn hyderus yn y dyfodol – ac mae hynny'n fwiad eisoes gan nifer dda o'r rhai fu'n cyfranogi o'r Flwyddyn yn 2008 ac yn cyfrannu iddi. Y mae'n ddisgwyliad hefyd mewn llawer cymuned ac ni ddylid eu siomi;
- ychwanegwyd yn sylweddol at alluoedd a sgiliau rheolaethol a gweinyddol holl drefnwyr yr ymgyrchoedd a'r gweithgareddau, a gellir disgwyl i'r ddarpariaeth yn y byd darllen ymgyfoethogi a dwysáu fel canlyniad i brofiad o waith y Flwyddyn yn 2008;
- arbrofwyd mewn meysydd newydd ac fe ddewiswyd nifer o sialensau sylweddol – megis denu plant i glybiau darllen ac annog cymunedau i ddarllen, gan dargedu carfanau anodd eu cyrraedd. Trefnwyd rhaglenni cyhoeddusrwydd a chysylltiadau cyhoeddus a ddenodd sylw tra gwerthfawr – o ran eu gwerth cyfatebol yn ariannol ac o ran cyfrannu at gyrraedd targedau'r Flwyddyn. Dysgwyd llawer o'r ymgyrchoedd hynny fydd yn werthfawr wrth barhau a dwysáu ymgyrchoedd i hyrwyddo darllen yn y dyfodol;
- profwyd eto bod gweithio o fewn partneriaethau yn ddull tra effeithiol o gyrraedd nodau a dyheadau uchelgeisiol. Heb gyfraniad yr awdurdodau lleol, eu gweithlu a'u harbenigwyr a chyfraniad pwysig nifer sylweddol o gyrff a sefydliadau eraill yng Nghymru, ni fyddai'r Flwyddyn wedi bod yn gymaint o lwyddiant. Dylid dweud yr un peth am gyfraniad cyfoethog arweinwyr answyddogol a gwirfoddol y cymunedau i'r patrwm o weithio mewn partneriaeth – hebddynt hwythau ni fyddai'r Flwyddyn wedi gallu cyrraedd a goddiweddyd y targedau;
- profwyd bod gan Gymru ei harbenigeddau lu mewn meysydd sy'n berthnasol iawn i ymgyrchoedd hybu a hyrwyddo darllen.

10.2 Argymhellion ar gyfer y dyfodol

Er bod y cyfnod paratoi ar gyfer y Flwyddyn Darllen Genedlaethol yng Nghymru yn 2008 wedi bod yn un byr, ac er bod cyfanswm y gyllideb a neilltuwyd ar ei chyfer yn gymharol fychan, gan fod yr ymateb wedi bod cystal o du'r cyhoedd fe ddylid ceisio adeiladu ar agweddau mwyaf llwyddiannus a chynaliadwy'r ymgyrch. Ond ni ellir gwneud hynny heb ddarparu'r adnoddau angenrheidiol. Gellid cyfiawnhau'r gwariant hwnnw ar sail yr hyn a gyflawnodd y Flwyddyn yn 2008. Yn benodol:

- gallai ymgyrch 'Wythnos Llyfr yn Anrheg' ddod yn rhan amlwg a rheolaidd o Ddiwrnod y Llyfr yng Nghymru bob blwyddyn, a gallai adnoddau gael eu clustnodi ar gyfer yr ymgyrch cysylltiadau cyhoeddus a ddylai fod yn rhan annatod o'r gwaith;
- gan fod y profiad a ddaeth yn sgil yr ymgyrch 'Cymunedau'n Darllen' yn 2008 wedi'i daenu dros Gymru, ac er mwyn adeiladu ar waith y Flwyddyn, fe ddylid ceisio ymestyn y cynllun i o leiaf un awdurdod lleol bob blwyddyn, a dylai hynny ganiatáu i'r awdurdodau eu hunain gymryd cyfrifoldeb dros gynlluniau tebyg wedi eu seilio ar fodel 'Cymunedau'n Darllen' yn y blynyddoedd dilynol. Mae tystiolaeth sylweddol sy'n dangos fod yr awdurdodau eu hunain yn awyddus i barhau â'r math yma o ymgyrch a'u bod yn sylweddoli fod budd i'w gael o wneud hynny. Ond y mae'n angenrheidiol sicrhau elfen o gymorth a chynhaliad ganolog trwy Gyngor Llyfrau Cymru er mwyn sicrhau llwyddiant;
- gan fod strwythur rheoli priodol wedi'i sefydlu, a llwyddiant yn dilyn hynny, mae potensial i sefydlu llawer mwy o glybiau darllen ar draws Cymru. Dylid darparu cyllideb ddigonol i gynnal y strwythur ac ar gyfer paratoi deunydd er mwyn cynnal y diddordeb a'r teyrngarwch.